PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

Rhifyn digidol | Rhif 429 | Mai 2020










# Diolch



Cymhwysodd Elinor Thorogood – gynt o Glan Ceulan, Penrhyn-coch sydd yn byw yn y dref erbyn hyn – fel nyrs ddiwedd Chwefror. Mae nawr yn gweithio yn Ysbyty Bron-glais.



Elin Fuller (nee Jenkins, Cwmbwa, Penrhyn-coch gynt) sydd yn byw yn Llundain ac yn gweithio 12 awr y dydd yn Ysbyty Kings College, Llundain. Mae Elin yn fam i ddau fachgen – Bryn (8) a Gethin (6) ac yn gweithio fel arfer yn yr Uned Bediatrig gyda phlant efo HIV. Yn ystod y cyfnod yma mae yn yr Uned Gofal Dwys.




Florence a Miriam yn dweud DIOLCH.




Bae Clarach yn dweud DIOLCH.




Daeth Siân ar draws yr arwyddion yma tra yn rhedeg am Brogynin. Mae Siân ac Elwyn yn byw yn Y Ddôl Fach; Siân yn gweithio fel Technegydd Fferyllfa yn Ysbytai Machynlleth (a Llanidloes oherwydd Covid 19 nawr). Mae'r ddau wedi gorfod gohirio eu priodas ym Mehefin yma tan Mehefin 2021.



Elfyn, Lois a Gwenno yn y Dolau yn canu Y Cwm ar CÔR-ONA

# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**

**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | YTincer@googlemail.com
**TEIPYDD – Iona Bailey**
**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 627916
**GADEIRYDD Y TINCER – Richard Owen**
31 Glan Ceulan, Penrhyn-coch ☎ 820168
**IS-GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228
**YSGRIFENNYDD – Iona Davies**, Y Nyth, Llanilar, Aberystwyth, SY23 4NZ
☎ 01974 241087
ionadavies752@btinternet.com
**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk
**HYSBYSEBION – Cysyllter â'r Trysorydd**
**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**
3 Brynmeillion, Bow Street, SY24 5BP
**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**TINCER TRWY'R POST – Edryd ac Euros Evans**, 33 Maes Afallen
Bow Street

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691
**Y BORTH – Grace Bailey**, Pencarreg, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871462
**Esther Prytherch** ☎ 07968 593078
**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Gerddi Gleision ☎ 822074
**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660
**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** – Dôlwerdd ☎ 871 615
**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** – Seintwar ☎ 828 309
**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228
**LLANDRE**
**Mrs Nans Morgan**
Dolgwiail, Llandre ☎ 828 487
**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** – 7 Tan-y-berth ☎ 820 642
**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# dyddiadur

**Rhifyn Mehefin** Deunydd i law Mehefin 5; Dyddiad cyhoeddi Mehefin 17

**GORFFENNAF 4-5** Dyddiau Sadwrn a Sul Twrnament pêl-droed Eric ac Arthur Thomas, Penrhyn-coch **Wedi ei symud o fis Mai** GOHIRIWYD

**GORFFENNAF 4** Nos Sadwrn Cyngerdd Calon Hafan **Wedi ei symud i nos Sadwrn 20 MAWRTH 2021**

**AWST 1** Dydd Sadwrn Sioe Capel Bangor GOHIRIWYD

**AWST 1-8** Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion Tregaron GOHIRIWYD

**AWST 15** Dydd Sadwrn Sioe Penrhyn-coch GOHIRIWYD

**AWST 28-30** Gŵyl Big Tribute, Gelli Angharad GOHIRIWYD TAN 27-29 AWST 2021

**MEDI 3** Dydd Iau Ysgolion Ceredigion i fod i ailagor ar ôl gwyliau'r haf

**MEDI 5** Dydd Sadwrn **Dyddiad newydd** Ras am Fywyd Aberystwyth

**MEDI 10-13** Dyddiau Iau i Sul Treialon Cŵn Defaid Rhyngwladol ar gaeau Tan-y-castell, Rhydyfelin GOHIRIWYD

**2021**
**MAWRTH 20** Nos Sadwrn Cyngerdd Calon Hafan yn y Neuadd Fawr

# Canu o bell – yn un rhith

Wrth i COVID-19 ledaenu ar draws y wlad, fe ddaeth ymarferion côr i ben yn ddisymwth ym mhobman. I gadw'r gymuned ynghyd ac i godi calon drwy ganu, fe ddechreuodd Côr ABC gwrdd ac ymarfer bob wythnos o bell drwy gyfrwng platfform fideogynadledda dan arweiniad Gwennan Williams.

Ar ôl ymarfer rhithwir cyntaf y côr, fe ysgrifennodd un o'r aelodau, y Prifardd Dafydd John Pritchard, englyn am y profiad a'i bostio ar twitter. Ar ôl darllen y gerdd, fe aeth un o'i gyd-aelodau, Andrew Cusworth, sydd hefyd yn gyfansoddwr ac yn arwain Côr Dinas, côr merched Cymry Llundain, ati i'w gosod i gerddoriaeth, gan greu darn i'r ddau gôr ei ganu gyda'i gilydd yn rhithwir. Mae'r darn, yn un rhith, yn disgrifio'r ffordd rydyn ni i gyd, er o bell, yn dal i fod yn unedig yn ein nod, fel cymuned, o ganu – gan ddatgan ein bod ni'n gôr o hyd.

Mae Côr ABC a Chôr Dinas, côr sy'n cynnwys Sioned Williams sy'n dod o Bow Street yn wreiddiol, wedi bod yn gweithio ochr yn ochr â'i gilydd i baratoi perfformiad rhithwir o'r darn, gydag aelodau'r corau'n recordio eu hunain yn canu eu rhannau i'w cyfuno i greu un perfformiad fideo. Bydd perfformiad cyntaf y darn yn cael ei ddangos nos Wener 22 Mai am 7yh ar *YouTube*. Ar ôl hynny, bydd ar gael i'w wylio'n barhaus yn yr un man, a bydd hefyd ar gael i'w wylio ar wefan y prosiect. Mwy o fanylion ynunrhith.cymru.



## CYFEILLION Y TINCER

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer mis Ebrill 2020

**£25** (Rhif 113 ) Elina Davies, Bronallt, Llandre

£15 (Rhif 262 ) Elizabeth Evans, Moorlands, Y Borth

£10 (Rhif 22 ) Mair England, Pantyglyn, Llandre

Fe dynnwyd y rhifau buddugol yng nghartref y trefnydd oherwydd y cyfyngiadau presennol.

Cofiwch os ydych yn aelod o'r cyfeillion ac yn newid enw neu gyfeiriad plis rhowch gwybod i'r trefnydd Bethan Bebb 01970 880228 neu ar e-bost **m.e.bebb@talk21.com**

## Enfys yn y Ffenest

Mae enfys yn y ffenest,
pob ffenest yn y stryd
ag enfys fach i ddiolch
i'r gweithwyr gorau i gyd.

Mae enfys yn y ffenest
a'r ffenest eto draw
ac enfys arall wedyn
yn obaith wedi'r glaw.

Llond gwlad o guro dwylo
a chanu'r anthem fach
llond gwlad o aros adref
i gadw pawb yn iach.

Ac er bod sgwrsio'n gysur
gydag eraill dros y we,
mae hiraeth yn fy nghalon
am weld ffrindiau hyd y lle.

A phan gaf unwaith eto
fynd allan i gwrdd a'r criw,
bydd enfys dros y cyfan
a bydd y byd mewn lliw.

**Tudur Dylan Jones**

**Diolch i Tudur Dylan am ganiatâd i gyhoeddi y gerdd**

**Trydar**

Pe bai eich Trydar o ddiddordeb i ddarllenwyr Y Tincer defnyddiwch yr hashtagau canlynol: #YTincer #PapurBro #Papuraubro #Ceredigion




**Pop-yp**

Mae'r Tincer, fel papurau bro eraill Cymru, wedi derbyn pop-yp trwy Fentrau Iaith Cymru. Maent ar gyfer hybu'r papur mewn digwyddiadau lleol www.papuraubro.cymru

**Llyfr newydd i ddathlu'r twf mewn cefnogaeth i annibyniaeth!**

Mae Gwasg y Lolfa'n paratoi cyfrol ddwyieithog i drafod a dathlu'r twf mewn cefnogaeth i Annibyniaeth i Gymru. Bydd y gyfrol yn cynnwys detholiad o straeon gan unigolion sydd wedi tystio i'r twf yma ers Ewros 2016, sydd wedi ymuno â'r ymgyrch yn sgil refferendwm Brexit neu wedi penderfynu yn nyddiau'r Coronavirus mai annibyniaeth i Gymru yw'r unig ffordd ymlaen.

Meddai golygydd y gyfrol, Mari Emlyn: "Byddai'n dda cael straeon o bob cwr o Gymru yn nodi pam eich bod chi wedi dewis cefnogi annibyniaeth i Gymru. Beth oedd y sbardun i chi gefnogi'r ymgyrch? Pam bod angen annibyniaeth? Byddai'n dda hefyd pe gallech anfon lluniau ohonoch chi a'ch teulu/ffrindiau i gyd-fynd â'ch profiad – yn yr Ewros yn 2016, mewn cyfarfodydd canghennau Yes Cymru, ar un o'r gorymdeithiau dros Annibyniaeth, o fewn eich cymuned neu yn eich cartref yn ystod y lockdown."

Cysylltwch gyda Mari Emlyn i gynnig eich lluniau a'ch straeon: mari.emlyn@btinternet.com. Dyddiad cau derbyn deunydd yw 1 Mehefin, 2020.

## DÔL-Y-BONT

**Brysiwch wella**

Anfonwn ein cofion at Gwesyn Evans, Pantydwn, sydd wedi treulio dipyn o amser yn Ysbyty Bron-glais yn ddiweddar. Gobeithio y bydd yn ôl yn ein plith yn fuan iawn.

Da deall hefyd fod ein gohebydd – Llinos Evans – lawer yn well ar ôl ymweliad â Ysbyty Bron-glais.

## TREFEURIG

**CWMERFYN**

**Cydymdeimlad**

Estynnwn ein cydymdeimlad â Hywel a Maddy Lewis a'r teulu, Fferm Cwmerfyn ar golli brawd Hywel, sef Eifion Lewis o Waunfawr, Aberystwyth.

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau i Carolyn a Simon, Bryngwyn, Trefeurig, ar enedigaeth merch fach - Fflur - dros y Pasg; chwaer fach i Lleucu.

**Marwolaeth**

Bu farw Valma Jones (Tal-y-bont gynt) yng Nghartref Abermad, Llanilar ar Fai 12 yn 100 oed. Bu Valma yn brifathrawes yn Ysgol Trefeurig am gyfnod o ddeng mlynedd 1970-80. Estynnwn ein cydymdeimlad gyda'i theulu ym Morgannwg a Phatagonia.



# Y BORTH

**Pen blwydd hapus**
Pen blwydd hapus i Margaret Griffiths, Rhyd Carreg, ddathlodd ei phen blwydd yn 70 dydd Llun, 11 Mai. Pob dymuniad da am adferiad iechyd llwyr a buan iddi.

**Doethuriaeth i nyrs o'r Borth**
Llongyfarchiadau mawr i Andrea Hughes o'r Borth ar ennill Doethuriaeth mewn Addysg ac Addysg Nyrsio o Goleg King's Llundain. Dechreuodd Andrea ar ei hastudiaethau tra'n gweithio fel Uwch Ddarlithydd ym Mhrifysgol Buckinghamshire, ac fe gwblhaodd y gwaith ar ôl ymddeol ac ymgartrefu yn y Borth gyda'i gŵr Hugh sy'n hanu o'r pentre.

Yn Fiji y ganed Andrea ac fe'i magwyd yn Awstralia. Nyrs oedd ei mam a'i thad yn aelod o'r lluoedd arfog. Er mai Economeg oedd ei gradd gyntaf o Brifysgol Sydney, penderfynodd nad yn y marchnadoedd ariannol yr oedd am ddilyn gyrfa ac fe aeth ati, fel ei mam, i hyfforddi fel nyrs. Tra'n gweithio yn Adran Llawdriniaeth Blastig Ysbyty Tywysog Cymru yn Sydney, penderfynodd ei bod am arbenigo ym maes gofalu am gleifion oedd angen llawdriniaeth blasting oherwydd anafiadau ac fe ddaeth i Brydain dros dro ym 1986 i ddilyn cwrs yn swydd Buckingham. Yno ym 1987 y cyfarfu â Hugh, oedd yn aelod o'r heddlu ar y pryd, a daeth yn ymwelydd cyson a chartre'r teulu yn y Borth.

"Cefais groeso o'r cychwyn cyntaf, ac mae gennyf atgofion melys o dafarn y Friendship ddiwedd yr 1980au a'r 90au. Mae cefndryd a ffrindiau o Awstralia wedi mwynhau ymweld â ni yma yn y Borth ac rydym wedi mwynhau eu tywys o gwmpas y rhan hyfryd hon o Gymru," meddai Andrea. "Fe wnaethom ddychwelyd yn barhaol i'r Borth ar ôl i'r ddau ohonom ymddeol o'n swyddi yn swydd Buckingham."

Mae Andrea bellach yn gweithio'n rhan amser yn Ysbyty Bron-glais fel Nyrs Datblygu Proffesiynol ac Ymarferol. Teitl ei doethuriaeth oedd 'Archwiliad o Ryngweithio Adferol ™ yng nghyd-destun nyrsio gofal acíwt i oedolion yn GIG Lloegr: Optimeiddio gofal a lleihau cyfleoedd ar gyfer gofal is-optimaidd.' Mae'n canolbwyntio ar greu fframwaith i gynorthwyo gweithwyr proffesiynol i herio ymddygiad amwys cyfoedion i leihau arfer gwael cyn i niwed ddigwydd ac i wneud y gorau o arfer gorau.

Cymerodd y gwaith oddeutu wyth mlynedd, ac roedd angen cysoni rhwng galwadau'r ddoethuriaeth a gofynion bywyd bob dydd yn cynnwys gweithio a gofalu am deulu.

"Dydych chi byth yn rhy hen i ddilyn astudiaethau pellach, ond mae angen dyfalbarhad," meddai Andrea. "Os oes gan rywun gefnogaeth gref gan deulu ac anogaeth gan gydweithwyr a ffrindiau, mae modd cyrraedd y nod. Rwyf wedi bod yn lwcus iawn yn hynny o beth. Roeddwn wrth fy modd bod fy Arholwr Allanol wedi dweud bod fy nhraethawd ymchwil "yn gwneud cyfraniad mawr i'r proffesiwn". Nawr, hoffwn ei gyhoeddi a gweld lle y gallem fynd â'r gwaith ymhellach, yn y sectorau cyhoeddus a phreifat.

"Gyda'r ddoethuriaeth drosodd, rwyf bellach yn cael cyfle i fwynhau bywyd y Borth - o fewn y cyfyngiadau cyfredol - ac rwyf 'o'r diwedd' wedi dechrau dysgu Cymraeg."

Wrth i un aelod o'r teulu gwblhau ei hastudiaethau, mae un arall dal yn ei chanol hi. Mae Stuart, unig fab Andrea a Hugh, yn gwneud PhD mewn crydcymalau gwynegol ym Mhrifysgol Caerdydd.

**Clwb Golff y Borth ac Ynys-las**
Mae'r clwb golff yn bwriadu ail-agor ar 1 Mehefin. Aelodau lleol yn unig fydd yn cael ei ddefnyddio a bydd y clwb yn dilyn holl reolau a rheoliadau Llywodraeth Cymru a Golff Cymru. Un person fydd yn cael chwarae ar y tro (neu ddau os ydyn nhw'n rhannu aelwyd). Mae'r clwb wedi bod ynghau ers cyflwyno'r cyfyngiadau coronafeirws ym mis Mawrth.

**Carnifal y Borth**
Yn sgîl argyfwng coronafeirws, mae Pwyllgor Carnifal y Borth wedi penderfynu yn erbyn cynnal prosesiwn y carnifal eleni. Er hynny, mae'r trefnwyr yn dal i obeithio y bydd modd cynnal rhai digwyddiadau yn ystod wythnos draddodiadol y carnifal ddechrau Awst. Bydd manylion pellach yn cael eu cyhoeddi yn y man.

**Cydymdeimlad**
Estynnwn ein cydymdeimlad i deulu Michael Bradley a fu farw ddechrau mis Mai yn 87 oed. Yn enedigol o Loegr, roedd wedi byw yn y Borth ers bron i chwarter canrif.



Gyda llanw isel iawn yn ystod mis Mai, roedd mwy o weddillion y fforest hynafol i'w gweld ar hyd y traeth.



A'r tywydd yn braf, fe fyddai'r Borth fel rheol dan ei sang ar benwythnos Gŵyl y Banc ond eleni roedd y traeth a'r pentre'n wag.



Bob nos Iau am 8yh, mae pobl y pentref wedi bod yn dod allan o'u tai i guro dwylo a diolch i'r NHS a gweithwyr allweddol eraill am eu gwaith.



Nos Iau 7 Mai i gyd-fynd a'r gymeradwyaeth i'r NHS, cafwyd perfformiad o 'Somewhere over the rainbow' gan rai o gerddorion y pentref

# Blodau Gogerddan



Llun: Judith Morris

Clychau Glas Gogerddan

Ddoi di heibio'r afon, Gwen?
Paid sôn am flodau'r plas!
Tyrd am dro i'r goedwig draw
I gasglu clychau glas.

Blodau'r brain sy'n cuddio'r lle;
Wel, wfft i flodau'r plas!
Pwy fu yma'n paentio'r rhain -
Y miloedd clychau glas?

E. Llwyd Williams



Llun: IBERS

Tegeirian y waun ar dir IBERS

## ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau i Eurgain a Gerwyn Ellis, Dôl Haidd, ar enedigaeth ei trydydd mab - Defi Hywel a anwyd ar 12 Mai. Mae'n siwr fod Ifan a Twm wrth eu boddau yn cael brawd bach i chwarae efo nhw! Llongyfarchiadau hefyd i mam-gu, Ann Ellis Hywelfan ar gael ŵyr bach arall. Dymuniadau gorau i'r teulu.

Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch
CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLEN BWYTY
ADLONIANT
AR AGOR O 5:30 P.M.
NOSWEITHIAU IAU A GWENER
AM BRYDIAU TEULUOL

## Cronfa Goffa Meilyr Llwyd

Pan fu farw Meilyr, neu Mei fel yr adwaenid ef gan bawb, yn sydyn ac annisgwyl ar 21ain Medi 2019, fe fu'n sioc a siom aruthrol i'w deulu, ei gyd-weithwyr, ei gyfeillion a'i gydnabod mewn cynifer o gylchoedd. Gwelwyd colli ei bersonoliaeth hawddgar, hael a charedig a'i gymeriad llawen a direidus. Roedd Mei yn un yr oedd ei wybodaeth gyffredinol ac arbenigol yn rhyfeddol iawn a'i gof yn ddiarhebol.

Ym mhentref Llangwyryfon y magwyd Meilyr, yn Nhŷ'r Ysgol i ddechrau ac yna yn Ynyswen, ond er Rhagfyr 2008 roedd wedi byw yn un o dai Mencap ym Mhenparcau



lle cafodd ofal arbennig iawn gan dîm o ofalwyr yno. Ac er Medi 1995 roedd wedi bod yn aelod o staff Llyfrgell Genedlaethol Cymru lle'r oedd wrth ei fodd yn ei waith ac yng nghwmni ei gyd-weithwyr.

Ar adeg ei farwolaeth agorwyd **Cronfa Goffa** i Meilyr a fyddai ymhen amser i gael ei dosbarthu i sefydliadau ac elusennau oedd yn agos at ei galon. Erbyn dyddiad ei ben-blwydd yn niwedd Chwefror eleni roedd cyfanswm y Gronfa Goffa wedi cyrraedd y swm anrhyfeddus o £4,250 a dosbarthwyd y cyfan, mewn symiau amrywiol, rhwng y sefydliadau canlynol:

Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Mencap Cymru, Clwb Gateway Aberystwyth, Clwb Peldroed Aberystwyth (sgwad anabl), Cronfa Goleudy Josh, Clwb Saethyddiaeth Aberystwyth, Clwb Nofio Cynhwysol Aberystwyth, ac Ysgol Gynradd Llangwyryfon.

Mae teulu agos Mei yn dymuno datgan eu gwerthfawrogiad o'r holl arwyddion o gydymdeimlad a charedigrwydd a gawsant, trwy wahanol gyfryngau, ar adeg eu profedigaeth lem ac yn dymuno diolch o waelod calon i bawb a gyfrannodd mor hael tuag at Gronfa Goffa Meilyr.

# BOW STREET

**Capel y Garn – addasu i addoli yn sgil y Coronafirws**

Er bod drysau ein capeli wedi bod ar gau ers canol Mawrth, mae'r Garn yn un o'r eglwysi ledled Cymru sydd wedi bod yn arbrofi gyda gwahanol fathau o dechnoleg i geisio cadw'u haelodau mewn cyswllt. Yn ogystal â pharhau â'i waith bugeiliol – ar y ffôn, wrth gwrs – mae ein Gweinidog, y Parch Watcyn James, wedi bod yn paratoi myfyrdod a defosiwn ar ein cyfer bob wythnos.


Rydyn ni'n defnyddio sawl ffordd wahanol o rannu'r rhain ymysg yr aelodau a chyfeillion, a bellach maent ar gael ar ffurf fideo ar dudalen Facebook Capel y Garn ac ar ein sianel YouTube newydd. Mae fersiwn sain yn cael ei uwchlwytho i Soundcloud, a chopi testun ar ein gwefan: www.capelygarn.org. Rydyn ni hefyd yn defnyddio Twitter (@capelygarn) a negeseuon e-bost i dynnu sylw at y deunyddiau hyn. Felly, mae cyfle i bawb sy'n dymuno gwneud hynny i wylio, gwrando neu ddarllen y myfyrdodau.

Os nad oes gennych fynediad i'r We, gallwch wrando ar wasanaeth ar eich ffôn, ar y rhif: 02920 101564.

Mae'r ymateb wedi bod yn galonogol iawn, ac rydyn ni wedi derbyn negeseuon o bell ac agos gan bobl sy'n gwerthfawrogi'r ddarpariaeth. Mae rhai'n hoffi gwrando ar y myfyrdod ychydig cyn noswylio, eraill wrth wneud gorchwylion o ddydd i ddydd, ac eraill yn cynnal 'gwasanaeth' ar yr aelwyd – y fantais o'i recordio ydi y gall pobl droi at y myfyrdod pan fydd hi'n gyfleus iddyn nhw.

Mae wedi bod yn gyfnod o arbrofi a dysgu am dechnoleg newydd o fewn cyfnod byr iawn – a tydi pethau ddim wastad wedi rhedeg yn esmwyth: y sain yn herciog ambell waith, a'r gwefusau ddim fel petaen nhw'n cydsymud â'r llun dro arall, ac fe ddiflannodd ambell fideo oedd wedi cael ei ffilmio'n ofalus i dwll du yn rhywle, a chyrraedd ebargofiant, mae'n debyg!

Ond roedden ni'n dal i golli'r cyswllt personol a'r cymdeithasu dros baned ar ddiwedd yr oedfa ac mewn astudiaeth



Feiblaidd. Felly, penderfynwyd mentro i fyd y Zoomio. Yn betrus iawn ar y dechrau, arbrofwyd â sgwrs dros baned 'rithiol' ar fore Mercher, gyda myfyrdod byr i gloi – ac ar ôl goresgyn ambell broblem fach, fe gafwyd hwyl arni.

Y cam nesaf oedd cynnal gwasanaeth drwy Zoom, a chan ei bod yn Wythnos Cymorth Cristnogol, fe drefnwyd i ddilyn trefn y gwasanaeth oedd wedi'i baratoi ar gyfer eleni, gyda nifer o gyfranwyr o eglwysi'r ofalaeth yn darllen ac yn gweddïo, dan arweiniad ein Gweinidog. Roedd hwn yn brofiad arbennig o fendithiol i mi ac fe grëwyd rhyw naws addolgar didwyll iawn yn ystod y gwasanaeth.

Fel y dywedodd ein Gweinidog: 'Gan na wyddom am ba hyd y pery'r ynysu na bygythiad COVID-19, nid yw'n bosibl i ni ddarogan beth fydd effeithiau hirdymor yr ynysu. Ond mae hefyd yn amlwg hyd yn oed yn awr mai tirlun gwahanol iawn fydd yn ein hwynebu os pery'r dieithrio am dymor maith.'

Yn y cyfamser, ein bwriad yw parhau i adeiladu ar sail ein profiadau ac arbrofi i weld beth fydd yn gweithio orau i ni fel eglwysi'r ofalaeth, gan ehangu i gynnal ysgol Sul ar Zoom, gobeithio. Mae croeso i unrhyw un ymuno â ni, wrth gwrs, drwy hoffi ein tudalen Facebook, ein dilyn ar Twitter neu wylio ein sianel YouTube. Does dim ffiniau – daearyddol nac enwadol – i'r We, ac felly, er bod drysau ein hadeiladau ar gau, mae drysau eraill ar agor led y pen i'ch croesawu. Anfonwch air at ein Gweinidog: watcyn.james@ebcpcw.cymru neu at ymholiadau@capelygarn.org.

*Marian B Hughes*

**Dechrau canu**

Gwelwyd Aled Myrddin a'r teulu ar rifyn y Pasg o 'Dechrau canu, dechrau canmol'. Gwelwyd y teulu yn cerdded ar draeth – clip a ffilmiwyd cyn y cyfyngiadau, a chlywyd Aled yn canu un o'i ganeuon – 'Cariad yn gorchuddio' Awgrymodd y gallai dreulio amser yn cyfansoddi mwy – edrychwn ymlaen i'w clywed! Ar yr un rhaglen bu Rhodri Darcy, Rhydaman (Garn Wen gynt) – sydd yn Swyddog Hyrwyddo a Chyfathrebu Undeb yr Annibynwyr Cymraeg – yn siarad.

**Priodas Aur**

Pob dymuniad da i Ieuan a Glenwen Thomas,33 Maes Ceiro , a fydd yn dathlu eu Priodas Aur ar 25 Mai! Llongyfarchiadau mawr i'r ddau ohonynt ar 50 mlynedd o briodas.





Preswylwyr Tregerddan yn cadw mewn cysylltiad gyda'u teuluoedd dros y ffôn a'r we yn ystod y sefyllfa bresennol.

**Gorsaf**

Daeth datganiad gan Trafnidiaeth Cymru "Ar ôl adolygu y gwaith gyda'n partner cyflenwi, Alun Griffiths, mae gwaith ar y safle yn Bow Street yn gallu parhau'n ddiogel yn unol â chanllawiau'r Llywodraeth. O'r 4ydd Mai, ein prif ffocws fydd y gwaith adfer cloddweithiau mawr (fel y bwriadwyd).

Mae gweithrediadau ar y safle wedi'u haddasu yn ôl y cyngor a roddwyd gan y Cyngor Arweinyddiaeth Adeiladu, sef ymbellhau cymdeithasol, PPE uwch, beth i'w wneud os bydd rhywun yn mynd yn sâl, teithio i'r safle, golchi dwylo, cyfleusterau newid a glanhau a fod yn ymwybodol o'r cyhoedd, ynghyd â'r holl fesurau a'r arferion diogelwch disgwyliedig a fyddai yn cael eu wneud fel arfer.

Mae diogelwch ein gweithlu, y cyhoedd sy'n teithio a chymdogion ar ochr y llinell

yn hollbwysig; Byddwn yn parhau i fonitro'r sefyllfa ddatblygol hon ac yn adlewyrchu hyn ar draws ein safleoedd adeiladu, i gynnwys gorsaf Bow Street."

**Swyddi newydd**

Dymuniadau gorau a phob dymuniad da i Gwenith ap Robert sydd wedi ei phenodi yn Arweinydd Cwricwlwm Cymru ar gyfer y Cyfnod Sylfaen i'r Mudiad Meithrin ac wedi gadael ei swydd yn Ysgol Plas-crug.

Llongyfarchiadau I'r Parchg Rhun ap Robert. Cyhoeddwyd fore Sul 17 Mai iddo gael ei apwyntio yn Ficer Tîm Castell-nedd. Y gobaith yw – y caiff ef a'r teulu symud ddiwedd mis Gorffennaf, a'r trwyddedu i ddilyn wedi hynny pan fo'n ymarferol bosib. Bu yn byw a gweithio yn Aberafan ers chwe blynedd.

**Codi arian**

Ddechrau mis Mai, cymerodd 'Eseta Tapa'atoutai-Uhi, 5 oed, ran yn y 2.6 Challenge (a drefnwyd er mwyn codi arian gan y byddai nifer fawr o elusennau'n colli llawer o incwm yn sgîl canslo Marathon Llundain). Penderfynodd 'Eseta, sydd o Gaerdydd ac yn wyres i Menna ac Elgan Davies, Bow Street, feicio ar hyd y lôn tu nôl i'r tŷ 26 o weithiau wedi gwisgo fel Wonder Woman. Mae hi wedi codi £920 ar gyfer elusen Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro. Da iawn ti 'Eseta!





Hefyd ddechrau mis Mai, beiciodd ei cyfnither a'u cefnder - Mabli (6) ac Idris (3) Benjamin o Fro Morgannwg, gwerth tair milltir yn yr ardd ffrynt i gasglu arian i ofalwyr yng Nghymru drwy elusen Carers UK. Hoffai'r ddau ddiolch i bawb am eu noddi gan godi £345 ar gyfer yr achos. Mae cyfle i gyfrannu o hyd drwy chwilio am dudalen "Taith feiciau Mabli a Idris" ar wefan JustGiving.com


**Merched y Wawr**

Ar stop y mae hi yn hanes Cangen Rhydypennau o Ferched y Wawr fel yn hanes llawer o fudiadau a gweithgareddau eraill yn ystod cyfnod yr argyfwng presennol. Nid ydym wedi medru cynnal y cyfarfodydd rheolaidd na'r Cyfarfod Blynyddol ac mae'r Trip Blynyddol wedi ei ganslo hefyd. Wrth edrych i'r dyfodol y cyfan y medrir ei ddweud yw na fydd llawer y medrwn ei wneud hyd nes y bydd y cyfarwyddiadau pellhau cymdeithasol wedi eu llacio. Yn y cyfamser cofiwn bod cadw mewn cysylltiad â'n gilydd mor bwysig, a hynny er lles ein iechyd corfforol yn ogystal a'n iechyd meddyliol. Gan obeithio y daw eto haul ar fryn yn fuan. Mair Lewis (Llywydd).

**Cyngor Cymuned Tirymynach**

Ni chynhaliwyd Cyfarfod yn ystod mis Mawrth na mis Ebrill ac mae'n anhebygol y cynhelir cyfarfod mis Mai ychwaith gan fod y ddeddf y dweud bod cyfarfod mis Mai i fod yn Gyfarfod Blynyddol gyda gwahoddiad agored i'r cyhoedd fod yn bresennol a bod y canllawiau pellhau cymdeithasol yn gwneud hynny yn amhosibl.

Ar nodyn cadarnhaol cydnabyddir yn werthfawrogol y llu o wirfoddolwyr sydd wedi gwirfoddoli i helpu gyda siopa ag ati



**Oedfa Noddfa**

Cafodd Noddfa, Bow Street, ei oedfa gyntaf drwy gyfrwng Zoom bnawn Sul, 10 Mai, gyda'r bwriad o wneud hyn bob pnawn Sul nes bod modd ailgwrdd yn y capel. Diolch yn fawr i Gareth a Gaynor, Hafle, am drefnu'r cyfan. Cafodd y criw bach oedd wedi ymuno fendith fawr o'r darllen, canu a'r gweddïo ar y cyd, a hyfryd oedd gweld wynebau ffrindiau unwaith yn rhagor. Cysylltwch ag un o swyddogion y capel os hoffech ymuno â'r oedfa – cewch groeso cynnes.

ac sydd yn gwneud gymaint o wahaniaeth i fywyd bod dydd y rhai hynny sydd yn gaeth i'w cartrefi o ddydd i ddydd.

**Pen blwydd hapus**

Pen blwydd hapus i Davina Davies, Maes y Garn, ar ddathlu ei phen blwydd yn hanner cant ddechrau mis Mehefin. Pob dymuniad da ac mae'n siwr y daw cyfle i ddathlu cyn bo hir.

*Trefnwyr Angladdau*

***C T Evans***

Gwasanaeth Angladdol Teuluol Cyflawn, wedi ei arwain yn bersonol gydag urddas. Capel Gorffwys Preifat, Gwasanaeth Dydd a Nos.

**01970 820013**

*gwyn@ct-evans.co.uk*

**Brongenau, Llandre, Aberystwyth SY24 5BS**

# Her Clwb Pêl-droed Bow Street

Mae chwaraewyr a swyddogion Clwb Pêl-droed Bow Street wedi gosod her fyd-eang i'r gymuned gyfan dros y 70 diwrnod nesaf. Mewn ymgais i ragori ar ymdrechion Phileas Fog a seren Monty Python, Michael Palin, mae'r orchest arwrol yma yn cynnwys seiclo, rhedeg a cherdded pellter sy'n cyfateb i gylchedd y ddaear – 24,860 milltir! Dan arweiniad chwaraewyr CPD Bow Street, mae'r her yn agored i bawb sy'n gysylltiedig â'r clwb a'r gymuned ehangach, boed yn hyfforddwyr, chwaraewyr iau, rhieni, swyddogion neu'n gefnogwyr, gyda'r bwriad o gyflawni'r dasg anferthol hon ymhen 70 o ddiwrnodau, a'r cyfan gan ddilyn canllawiau'r Llywodraeth ar ymarfer corf a chadw pellter cymdeithasol.

Mae'r clwb wedi sefydlu tudalen JustGiving https://www.justgiving.com/crowdfunding/bowstreet-fc i dderbyn rhoddion a fydd yn cael eu rhannu rhwng y clwb a'r ddwy elusen ganlynol:

- **Apêl Covid 19 GIG Hywel Dda** – sy'n cefnogi lles y staff a gwirfoddolwyr GIG sy'n gofalu am gleifion COVID-19
- **HAHAV – Gwirfoddolwyr Hosbis yn y Cartref Aberystwyth**

Meddai Cadeirydd CPD Bow Street, Wyn Lewis, 'Rwy'n hynod falch o'r rhai hynny o fewn y clwb, y chwaraewyr hŷn yn enwedig, a fu'n gyfrifol am gychwyn y fenter gyffrous yma, ac yn ôl y diddordeb cynnar a welwyd, disgwylir y bydd nifer fawr o bobl yn cymryd rhan.

'Mae'r dyddiau hyn yn rhai anodd iawn i glybiau chwaraeon cymunedol fel ni, a thra bydd cyfran o'r arian a gasglwyd yn cael ei ddefnyddio i sicrhau bod CPD Bow Street yn barod ar gyfer parhâd o'r tymor presennol neu gychwyn y tymor nesaf, roeddwn yn teimlo ei bod yn hanfodol i ni gefnogi elusennau lleol yn y cyfnod tyngedfennol yma.

'Rydym ni oll yn edmygu gweithwyr rheng flaen GIG, yn enwedig yn ystod yr argyfwng presennol, a bydd cefnogi Apêl Covid 19 GIG Hywel Dda o fudd mawr i'r unigolion rhyfeddol hynny sy'n gweithio ym Mron-glais ac ysbytai eraill.'

Ychwanegodd Tomos Wyn Roberts, llefarydd ar ran chwaraewyr Bow Street – 'Roedd y bois yn teimlo ei bod hi'n bwysig cefnogi elusennau nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â Covid 19, ond sy'n darparu gofal cymdeithasol hanfodol i gynnal y rhai sy'n dioddef o salwch hir dymor. Dyma pam ry' ni wedi enwebu HAHAV fel yr elusen ry' ni am ei chefnogi – mae'r gwaith y mae HAHAV yn ei wneud yn ein hardal yn cael ei edmygu a'i werthfawrogi'n fawr iawn.'



Tom Williams – Chwaraewyr – Qatar



Ryan - Aelod iau – Aberystwyth



Sion Manley – Chwaraewr Cefnogwr – Sydney



Mair Nutting – Rhiant Cefnogwr – Y Borth



Tom Bates – Chwaraewr – Pisgah

## Bardd mis Mai

Anwen Pierce yw bardd y mis mis Mai ar Radio Cymru. Dyma y gerdd gyntaf luniodd fel hynny.

**Arwr:**
Ti ydi'r un sy'n llywio'r fan wen fawr,
Ti ydi'r un wrth dil y siop â'r wên,
Ti sydd yn casglu'r bin, yn mopio'r llawr,
A ti sy'n trwsio'r car a gyrru'r trên.
Ti sydd yn dod â'r post ar hyd y lôn
A ti sy'n codi canu ar y we,
Ti ydi'r nyrs gysurlon ar y ffôn
A ti sy'n paratoi'r bocs tec-awê.
Ond dyw hi ddim yn hawdd parhau â'r gwaith –
Daw hwyliau gwael, ac anodd ydi'r dasg;
Mae'r siwrne'n teimlo'n hir, heb ben i'r daith
a gwg sydd yno weithiau dan dy fasg.
Ond er i'r dagrau ddyfod o dan gêl,
Mae calon arwr ynot, doed a ddêl.
**Anwen Pierce**

# LLANDRE

**Mrs Marian Jenkins, Eryl**

Trist yw ffarwelio â chyfaill ar unrhyw adeg, mil tristach pan na fydd cyfle i rannu'r profiad gyda chyd-gydnabod. Bu farw Marian Jenkins ar Ebrill 3ydd, eleni, yn ei chartref, Eryl. Roedd hi wedi derbyn yr wybodaeth na ellid trechu ei chancr yn nodweddiadol o ddewr ac urddasol rai wythnosau cyn hynny, ond anodd oedd hi i ni, ei chyfeillion, gredu bod y corff heini, trwsiadus a'r meddwl ystwyth a chlir ar fin gorfod ildio.

Yn Llundain y ganwyd Marian, yn 1931. Gan fod ei thad, a hanai o Flaenau Ffestiniog, yn beiriannydd mwyngloddio yn y Gweithfeydd Aur yn Affrica, yn Kenya y bu ei chartref am wyth mlynedd cyntaf ei hoes. Pleser mawr iddi oedd rhannu atgofion am y cyfnod hwnnw a'i gallu hi pan yn blentyn bach i sgwrsio yn Gymraeg, yn Saesneg ac yn Swahili. Mynnai mai ei phlentyndod ynghanol pobl ddieithr mewn gwlad ddieithr oedd wrth wraidd ei chyfeillgarwch rhwydd a pharod â phawb ddoi i gysylltiad â hi, ac mai'r mordeithiau hirion rhwng y wlad honno a mamwlad ei rhieni roddodd iddi ei hoffter ysol o deithio.

Derbyniodd Marian, a Gwen a Dafydd, ei chwaer a'i brawd, eu haddysg gynnar gan Kitty Lloyd, y Gymraes a aeth gyda'r teulu i Kenya i fod yn athrawes arnyn nhw, ond ar ddechrau'r rhyfel bu raid i'r teulu ddychwelyd i Gymru. Yng Nglanceiro, neu'r Hen Bost fel y gelwid ef yn lleol, Llandre, y gwnaethon nhw eu cartref i ddechrau a symud yn nes ymlaen i Cedrwydd. Yn wyth oed felly dechreuodd Marian fynychu Ysgol Rhydypennau. Cofiai gyda gwên am fechgyn yn yr ysgol yn ei holi'n heriol "Os edech chi o Affrica, pam edech chi ddim yn ddu?"!

O ysgol Ardwyn aeth ymlaen i Goleg Addysg Gorfforol Dartford, yr unig Gymraes yn y coleg. Pleser iddi felly oedd gallu bwrw'r Sul gyda thylwyth ei mam, oedd yn wreiddiol o Langeitho a Threfenter, ond a oedd bellach yn byw yn Llundain. Dyma



lle daeth hi'n ymwybodol o'i Chymreictod, meddai hi.

Ar ôl cyfnod yn athrawes yn Ysgol Ramadeg y Merched yn Llanelli symudodd i Ardwyn, ei hen ysgol, a chael cefnogaeth y prifathro A D Lewis i ddefnyddio rhagor o Gymraeg wrth ddysgu – peth anarferol mewn Ymarfer Corff ar y pryd. Gyda'r cynnydd mewn addysg Gymraeg daeth angen am hyfforddwyr gyda sgiliau a phrofiad addas i hyfforddi athrawon. Penodwyd Marian yn ddarlithydd Addysg Gorfforol ac Addysg Iechyd yn y Coleg Normal ym Mangor. Cofiai gyda blas am y cyfarfodydd gydag Eic Davies ac eraill i fathu termau at y diben. Yn ddiweddarach symudodd i Aberystwyth i ofalu am hyfforddi merched yn yr is-adran Addysg Gorfforol yn y Brifysgol. Yn ystod ei hamser yno daeth yn Llywydd Cenedlaethol (Prydeinig) y *Women's Intervarsity Athletics Board* – yr unig un o Gymru erioed i ddal y swydd. Yn yr un cyfnod bu'n rhan o'r ymgyrch i sefydlu Neuadd Pantycelyn yn neuadd Gymraeg.

Ar ôl ymddeol symudodd yn ôl i Landre ac ymdaflu i brysurdeb o fath arall. Daeth yn aelod o'r Cyngor Cymuned gan helpu i ddatblygu'r maes chwarae i blant a'r cyrtiau tennis; bu'n aelod o Gyngor Iechyd Cymunedol Ceredigion, yn ymgeisydd i'r Cyngor Sir dros Blaid Cymru ddwywaith, yn cynnal sesiynau Cadw'n Heini yn Neuadd Goffa Rhydypennau, yn weithgar yng Nghapel y Garn ac yng nghangen Genau'r-glyn o Ferched y Wawr, ac yn barod iawn ei chymwynas pan fyddai angen.

Estynnwn ein cydymdeimlad â'i gŵr Eddie a ofalodd amdani'n dyner a diarbed yn ystod ei gwaeledd, ac â'i phlant Hywel a Rhiannon, a'r wyrion, ac â theuluoedd Gwen a Dafydd. Mae'r ardd flodau a greodd ac a feithrinodd gydag Eddie yn Eryl yn deyrnged addas o liwgar iddi yr adeg yma o'r flwyddyn.

**Pen blwyddi arbennig**

Pen blwydd hapus hwyr i Gwynfryn ac Eryl Evans, Y Ddôl - dathlodd y ddau ben blwyddi arbennig yn ddiweddar.

Ddiwedd y mis bydd Gwenda James, Tremedd, yn dathlu pen blwydd arbennig. Pen blwydd hapus Gwenda – cei ddathlu cyn bo hir gobeithio!!

**Addysgu adref**

Clywyd Dyfri a Heddwyn ap Ioan Cunningham a'u mam Hedydd yn siarad ar y rhaglen radio Bwrw Golwg amser cinio dydd Sul 17 Mai yn sôn am gael eu haddysgu gartref. Gwnaethpwyd fideo ohonynt – sydd i'w weld ar dudalen Facebook a gwefan y rhaglen. Mae y rhaglen radio ar gael i wrando eto am 26 diwrnod.

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
CROESAWIR ARCHEBION GAN UNIGOLION AC YSGOLION
13 Stryd y Bont, Aberystwyth
01970 626 200



Clapio yn Llandre yn y glaw

# CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN

**Pen blwydd arbennig**
Pwy a greda ei bod wedi cyrraedd ei deunawfed pen blwydd? Ydy mae amser yn hedfan. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Alaw Evans, Pwllcenawon. Pob hwyl iti gyda'r cwrs yn y Coleg Addysg Bellach.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Rhianydd Morgan, sydd wedi colli ei brawd William yn ddiweddar.

**Llwyddiant**
Pasiodd Ffion Williams, Brynrheidol arholiad cerdd gradd saith efi'r ffidil yn ddiweddar. Tipyn o gamp! Llongyfarchiadau mawr i ti Ffion, a phob dymuniad da i'r dyfodol.

**Cydymdeimlad**
Daeth y newyddion o lannau Merswy am farwolaeth John Gwyndaf Williams ar ddydd Sul 8 Mawrth. Yn frodor o Dalsarnau roedd yn gweithio i MANWEB ac ar ôl cyfnod yn Wrecsam buont yn byw ym Machynlleth a wedyn Ceinws cyn i'r teulu – Gwyndaf, June ei wraig a'u merch Julie symud i Gapel Bangor yn nechrau'r chwedegau Yng Nghapel Bangor y ganwyd y mab Mike ym mis Mawrth 1963; buont yn byw yma tan ddiwedd y chwedegau pan gafodd Gwyndaf ddyrchafiad i ganolfan MANWEB yn Lerpwl a symudodd y teulu i fyw i Maghull. Bu Gwyndaf yn mynychu capel Cymraeg Waterloo ac yn aelod – a wedyn Cadeirydd - Côr Meibion Aughton. Daeth yn brif beirianydd trydan cwmni MANWEB. Ymddeolodd ym 1993 gan symud i bentref Ainsdale, ger Southport. Cydymdeimlwn â'i weddw a'r plant a'u teuluoedd.

**Genedigaethau**
Llongyfarchiadau calonnog i Mr. a Mrs. Garth Hughes, Brynawelon, ar enedigaeth wyres fach arall, y tro hwn i Carys a Jack Walsh yng Nghaerdydd. Ganwyd Nansi ar y 4ydd o Ebrill. Dymuniadau gorau i chi fel teulu, rwy'n siwr y bydd Sara Mair a Gruffydd ynghyd â Mam-gu a Tad-cu yn gyffrous iawn pan ddaw'r amser iddynt gwrdd â'r trysor newydd sbon yma.

Hefyd carem longyfarch Mr. a Mrs. Richard Hogger, Plas Melindwr ar enedigaeth eu hail wyres yn Norwich. Ganwyd Daisy Grace ar y 19eg o Ebrill yn ail ferch i Diecon a Laura Hogger a chwaer fach i Millie. Mae'r teulu yma eto yn aros yn eiddgar at gael cwtsh efo'i hwyres fach newydd. Dymuniadau gorau i chithau fel teulu.



**Ebrill poeth**
Mis Ebrill eleni oedd y poethaf ers recordio. Diolch am hynny, neu pe na fuasai, byddai y lawr glo wedi gyrru mam yn wallgo.!

# Tŷ coeden

Mae'r tŷ coeden sy'n cuddio ynghanol y coed yng ngwaelod ein gardd yn le arbennig iawn i ni fel teulu. Yn dilyn y ddamwain erchyll lle collon ni ein mab bach 5 oed, Ned, yn 2016, fe addawodd Bleddyn wrth Tomi a Cai, ein dau fab arall, y byddai'n adeiladu tŷ coeden iddynt – tŷ coeden arbennig er cof am Ned. Bleddyn sydd wedi gwneud y gwaith cynllunio ac adeiladu ei hunan, yn gweithio arno ar ôl gwaith ac ar y penwythnosau. Dros yr wythnosau diwethaf, a phawb adref oherwydd y Coronafeirws, mae Tomi a Cai wedi cael cyfle i helpu Bleddyn – yn peintio'r ffenestri a'r drysau, torri coed a tharo hoelion - yn dysgu sgiliau ymarferol newydd.

Trwy dristwch a phoen, mae'r adeilad yma wedi codi. Mae'n le i ni dreulio amser fel teulu, yn mwynhau'r golygfeydd bendigedig, ac ar ddiwedd dydd, gwylio'r haul yn machlud. Mae'n le tawel a heddychlon, gyda bywyd bob dydd yn teimlo'n bell i ffwrdd wrth wrando ar gân yr adar a sisial y dail. Mae'n le i gael hwyl a lle i ymlacio. Gyda llawr 'mezzanine' ynddo, y peth cyntaf mae Tomi a Cai eisiau ei wneud pan fydd wedi ei orffen, ydi cael cysgu ar y llawr top, yn edrych allan ar sêr y nos a'r lleuad drwy'r ffenest grwn. Nid dim ond tŷ coeden ydi hwn, ond gofod hudolus, adeilad gwir arbennig i gofio am un bachgen bach arbennig iawn – Ned.
**Sharon Marie Jones**







## parhad ... Capel Bangor / Pen-llwyn

**Pen blwyddi**

Llongyfarchiadau cynnes i Alaw Evans, Pwllcenawon, ar ddathlu ei phen blwydd yn ddeunaw oed ar y 27ain o Ebrill, agoriad y drws yn ddiogel yn ei phoced erbyn hyn. Mae Alaw yn bwriadu astudio busnes ym Mhrifysgol Caerdydd y flwyddyn nesaf. Dymuniadau gorau yn dy yrfa i'r dyfodol.

Hefyd, llongyfarchiadau i Amy Dryburgh, Maes Melindwr fydd yn dathlu pen blwydd yn un-ar-hugain ar Fai 10fed. Oherwydd y sefyllfa bresennol mae Amy adre ar ôl treulio 3 mlynedd ym Mhrifysgol Lerpwl, pan fyddai yn graddio yn yr haf. Dymuniadau gorau i'r dyfodol, daw haul ar fryn eto i tithau.

**Cadw'n ddiogel**

Anfonwn ein cyfarchion a'n dymuniadau da at ein cyfeillion a'n cydnabod o fewn yr ardal a thu hwnt, rhai yn eu cartrefi eu hunain ac eraill mewn cartrefi gofal. 'Rydych yn ein meddyliau a'n gweddïau beunydd ar yr adeg bryderus yma yn ein hanes. Diolch am garedigrwydd ein cyd-fforddolion ac am y bendithion a gawn o'r cyfryngau digidol. Yng ngeiriau'r emynydd Moelwyn "fe all mai'r storom fawr ei grym, a ddaw â'r pethau gorau im". Cadwch yn saff.


*Crefftau Pennau*

*Coffi Boreuol*
*Byrbrydau Poeth neu Oer*
*Cinio*
*Te Prynhawn*
*Crefftau Ac Anrhegion*

*Ar agor*
*Llun-Sadwrn*

Brecwast
ar gael

01970 820 050

Pennau


# Dr. E.G. Millward 1930-2020

Trist oedd y newyddion am golli Dr E.G. Millward — Tedi i bawb — yn 89 mlwydd oed. Tan yn ddiweddar, byddai'n prysuro ar ei sgwter o Ger-y-llan i'r post a siop y garej ac yn mwynhau clonc ar y ffordd. Bydd rhai yn cofio'r achlysur hapus yn 2015 pan lansiwyd ei hunangofiant, *Taith Rhyw Gymro*, nid yng nghynteddau'r Brifysgol lle y bu'n darlithio tan iddo ymddeol yn 1993, ond yng nghapel Horeb, ac yn y pentre a oedd mor annwyl ganddo.

Tyfu'n Gymro a wnaeth Tedi. Pobl Merthyr oedd ei rieni, pobl ddi-Gymraeg: ei fam yn un o wehelyth Georgiaid Ceredigion, ond hynafiaid ei dad o Redditch, wedi dod i Ferthyr cyn 1850 i sefydlu siop gig. I weinyddiaeth cwmni'r G.W.R. y gweithiai tad Tedi, ac yng Nghaerdydd y magwyd y bachgen. Bu'n ffodus mai i Ysgol Uwchradd Cathays yr aeth, a dod dan ddylanwad W.C. Elvet Thomas, athro ysbrydoledig ar nifer, gan gynnwys Bobi Jones a Gilbert Ruddock. Daeth trobwynt — neu'n hytrach drochfa i Tedi yn haf 1947 pan drefnodd Elvet daith gerdded 550 milltir i bump o fechgyn Cathays. Aros yng nghartrefi Cymry Cymraeg a gwersylloedd yr Urdd a blannodd yn y glaslanc yr awydd i fod 'ymhlith y carfanau hyn o Gymry ifainc, hoenus' a gwrddodd ar ei daith. Dylanwad cryf arall oedd cymdeithas glòs capel yr Annibynwyr ym Minny Street, Caerdydd.

Ymlaen yr aeth i Brifysgol Caerdydd, a graddio yn y Gymraeg. Doedd dim darpariaeth arbennig i'r myfyrwyr ail-iaith y pryd hynny, diffyg yr oedd Tedi ei hun i'w unioni maes o law yng Ngholeg Prifysgol Aberystwyth. Ei eilun yng Nghaerdydd oedd yr Athro twymgalon, Griffith John Williams, ac ef (gyda chymorth answyddogol Bob Owen, Croesor!) a fu'n cyfarwyddo ymchwil Tedi ar hanes a bywyd Eben Fardd. Dyma gyfnod hefyd a welodd Tedi'n lledu ei adenydd. Fe fu'n actio gyda Siân Phillips yn y gymdeithas ddrama — yr oedd golwg hardd y *leading man* arno tan y diwedd. Ac fe ymunodd â phrotestiadau, fel hwnnw yn Nhrawsfynydd yn 1951, yn erbyn y meddiannu tir a oedd ar droed gan y Fyddin. Gwelodd yno rym ymddygiad di-drais a dewr Gwynfor Evans, D.J. Williams a Waldo Williams, a daeth i ddeall hefyd fod angen pwyll a disgyblaeth a strategaeth er mwyn dwyn y maen i'r wal. Cofrestrodd fel gwrthwynebwr cydwybodol a hynny ar dir crefydd— wedi'i arfogi, meddai, gan ddadleuon G.H.C. Macgregor, *The New Testament Basis of Pacificism*.

Roedd y 60au yn gyfnod prysur, ac yntau a Sylvia yn magu teulu yn Aberystwyth. Yn ysgol haf Plaid Cymru yn 1962, mewn ymateb i alwad 'Tynged yr Iaith' Saunders Lewis, ac i arwriaeth y Beaseleys yn Llanelli, cynigiodd y dylid sefydlu mudiad i weithredu dros statws swyddogol i'r




Llun: Marian Delyth

Gymraeg. Ef a'r hanesydd John Davies oedd y cyd-ysgrifenyddion, a Tedi a awgrymodd atgyfodi'r hen enw Cymdeithas yr Iaith Gymraeg. Wedi protest y Swyddfa Bost a Phont Trefechan yn 1963, rhoes ei egni fwyfwy i'r Blaid gan sefyll yng Ngheredigion yn etholiad 1966 (yn erbyn Elystan Morgan) ac ym Maldwyn yn 1970, a gweithredu fel Is-lywydd y Blaid. Gwaith arall a roes foddhad mawr iddo oedd ei waith fel cynghorydd: ef a sefydlodd Gymdeithas Cynghorau Bro a Thref Cymru yn 1976.

Nid oedd neb cystal â Tedi am alluogi pobl i gerdded yn dalog 'dros y bont' a dod yn rhugl yn y Gymraeg. Fe fu 'peth syndod parchus' fod ei ddisgybl enwocaf, y Tywysog Charles, wedi dysgu cymaint mewn cyn lleied o amser, ond doedd hynny ddim yn syndod o gwbl i'w gydweithwyr. Ac fel hanesydd llên, gwnaeth lawer, mewn llu o erthyglau, ac mewn llyfrau fel *Cenedl o Bobl Ddewrion: Agweddau ar Lenyddiaeth Oes Victoria* (1991), ac *Yr Arwrgerdd Gymraeg* (1998) i symud ein rhagfarn am werth cynnyrch y cyfnod, wrth ymdrin yn dreiddgar â chymhellion yr awduron a disgwyliadau eu cynulleidfa.

Roedd yn falch iawn o'i blant — Andras, nofelydd gwyddonias arloesol a fu farw yn 2016, a Llio, actor a cherddor, a fu'n fawr ei gofal o'i thad, fel y bu Dr Brian Evans ffyddlon, ei gymydog drws nesaf.

Fe gafodd Tedi addfwyn a bonheddig fwy na'i siâr o ofid a siom, ac yn y blynyddoedd wedi iddo symud i'r Penrhyn, dirywiodd y gwendid yn ei goes, a bu'n gaeth i gadair olwyn. Ond ni phylodd y wên, ni siglodd yr argyhoeddiad, ni phallodd y gobaith. Fel hyn y mae'n cloi ei hunangofiant:

Dechreuais dyfu'n Gymro gynt mewn gwlad wahanol. Cyn i mi ymadael â'r fuchedd hon, hyderaf y byddaf yn ymfalchïo fy mod yn aelod o wlad sydd wedi adennill ei hunan-barch, gwlad sydd yn sefyll ysgwydd wrth ysgwydd â gwledydd cyfrifol eraill yn y byd hwn; cenedl sydd yn ymroi i sicrhau heddwch yn ein byd.

**Marged Haycock**

# PENRHYN-COCH

**Horeb**
Ni chynhelir gwasanaethau ar hyn o bryd yn Horeb oherwydd rheolau COVID_19. Mae'r Parchg Peter Thomas yn llunio myfyrdod wythnosol sydd yn cael ei rannu gydag aelodau a chyfeillion – mae hefyd ar wefan Trefeurig a thrydar Trefeurig a'r Tincer. Pe hoffech dderbyn copi trwy ebost cysylltwch gyda'r ysgrifennydd – Ceris. Gruffudd@gmail.com.

**Priodas Berl**
Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Peter a Glenys Morgan, Tirydail, ddathlodd eu priodas berl ar 21 Ebrill.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Megan Davies, Pantdrain, a Gwladys Roberts, Minafon, sydd wedi colli eu brawd William yn ddiweddar.

Bu farw Ken Jones 1 Dôl Helyg, yn Ysbyty Bron-glais, ar Fai 2. Cydymdeimlwn â'i bartner Sandra. Angladd preifat. Derbynir rhoddion, os dymunir tuag at Uned Cemotherapi Ysbyty Bron-glais d/o Tom Eurfyl Jones.

**Ebrill 2020**
Amser anifyr i bawb yn de
Gorfod aros i mewn yn eu cartre
Y pla Cornofeirws wedi dod i'n poeni
A pawb yn gofidio yn fawr am hynny
Diolch i'm cymdogion a'r siopau am gydynnu
ac ar gael bob amser yn barod i'n helpu.
Diolch i'r teulu am eu gofal tyner
â gofalu amdanaf drwy'r holl amser
Diolch I Dduw am fod yna i mi
A rhoi oi ofal drosom ni
Gobeithio daw hwn I ben yn go fuan
a bydd pawb eto yn cael mynd Allan
a gobeithio y daw pob bendith i'n rhan
a bydd yr hen bla wedi marw allan..
*Mairwen Jones*

**Clwb Pêl-droed Penrhyn-coch**
Cyhoeddodd CPD Penrhyn-coch ddechrau Mai bod eu cais am drwydded i chwarae yn Ail Reng Cymdeithas Bêl-droed Cymru wedi bod yn llwyddiannus.

Ar 19 Mai cyhoeddodd Cymdeithas Pêl-droed Cymru eu bod wedi penderfynu dod â'r tymor i ben i gynghreiriau 1-4, sy'n golygu fod CPD Penrhyn-coch yn gorffen y tymor yn barchus yn yr wythfed safle yn Rheng 2 Cynghrair y Gogledd. Llongyfarchiadau i reolwyr, chwaraewyr a phawb sy'n gysylltiedig â'r Clwb.

**Cymorth Cristnogol**
Fel rhan o wythnos Cymorth Cristnogol 10-16 Mai mae Pwyllgor Penrhyn-coch wedi sefydlu tudalen Just giving. Os ydych am gyfrannu eleni gallwch wneud – chwiliwch am Wythnos Cymorth Cristnogol Penrhyn-coch 2020. Os nad ydych yn gallu rhoi drwy'r we yna gallwch anfon siec yn daladwy i Eglwys Horeb at William Howells, Rhyd-y-gof, Penrhyn-coch SY23 3EQ neu Eglwys St Ioan, at R Hughes Jones, 61 Ger-y-llan, Penrhyn-coch,SY23 3TR. Bydd yr eglwys / capel yn eu tro yn anfon yr arian ymlaen i Gymorth Cristnogol.

Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu hyd yn hyn. Mae dyddiad cau y casgliad wedi ei ymestyn hyd at 30 Mehefin.

**Priodas Berl**
Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i'r Parchg Eifion ac Alwen Roberts, Dôl Helyg, ddathlodd eu priodas arian ddiwedd Ebrill.

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Cemlyn a Ruth yng Nghaerdydd ar enedigaeth mab - Efan ar 28ain o Ebrill; ŵyr i Bethan a Jeremy Davies, Glan Ceulan a nai i Trystan.

Hefyd i Anna a Delwyn Evans, Ger-y-llan, ar enedigaeth Cai Sion – brawd bach i Eva Shan ym mis Ebrill.

Ac i Martienus a Nicola Thomas, Dôl Helyg, ar enedigaeth Wyddfa Cerian ar Fai 1af.

**Pen blwydd arbennig**
Pen blwydd hapus hwyr i Sarah Lloyd, Ger-y-llan, ddathlodd ben blwydd arbennig yn ddiweddar.

**Pen blwydd hapus**
Pen blwydd hapus i Owen Galbraith, Gwelfor, fydd yn 18 ar 31 Mai.

**Gwellhad buan**
Dymunwn wellhad buan i Janice Morris, Glan Ceulan, ar ôl ymweliad â Ysbyty Bron-glais.



**Ymweliad Spiderman**
Cafodd Batman y Bala gryn sylw yn y wasg yn ddiweddar – wel fe fu yna Spiderman ym Mhenrhyn-coch! Diolch i Sion Hurford am drefnu fod plant Dôl Helyg yn cael eu diddanu wrth fynd o amgylch y stad.



Mae'n nos Iau! Twm a Ned yn chwythu i gefnogi!

**Adref o'r Andes**
Yn anffodus oherwydd y sefyllfa gyda COVID 19 bu'n rhaid i Gwenno Morris – ac athrawon eraill o Gymru oedd yn y Wladfa – ddychwelyd am y tro i Gymru.Gan nad oes awyrennau yn hedfan o fewn Ariannin bu'n rhaid iddi hi a'r lleill wneud siwrne 32 awr mewn bws o Esquel i Buenos Aires. Aros dros yno cyn gadael am Lundain, gan hedfan trwy Guyana. Croeso adref Gwenno! Siwrne a hanner!



**Ffotograffydd ifanc**
Llongyfarchiadau i un o blant Clwb Sul Horeb - Hedydd Beechey - enillodd docyn llyfr am ei set ffotograffau yng nghystadleuaeth FfotoAber dros y Pasg drefnwyd gan Morlan.

# Teyrnged: Mrs Laura Bolt



Ar nos Sul 19 Ebrill, bu farw Mrs Laura Bolt, Ger-y-llan yn 87 mlwydd oed.

Roedd Laura yn ferch i Anna Mary a David James, Penrhyn-coch, a'r ieuengaf o ddwy chwaer. Gwasanaethodd ei thad fel ysgrifennydd ac arweinydd y gân yn Horeb am nifer o flynyddoedd. Mynychodd Laura Ysgol Penrhyn-coch ac Ysgol Ardwyn. Derbyniodd ei magwraeth ysbrydol yn Horeb ac yno y'i bedyddiwyd a'i derbyn yn gyflawn aelod. Priodwyd hi yno ag Emrys James mewn priodas ddwbl gyda'i chwaer Mona ym mis Mawrth 1953, a'r ddwy yn gwisgo yr un dillad priodasol.

Wedi i Emrys dderbyn swydd gyda chwmni BP symudodd y ddau i fyw i Abertawe ac yno y ganed eu mab a'u merch, Stephen a Sheila. Rai blynyddoedd yn ddiweddarach, dychwelodd Laura ac Emrys i fyw yn Llety Spence, Cwmerfyn, ond o fewn ychydig o flynyddoedd bu farw Emrys o afiechyd Hodgkin's. Dychwelodd Laura i fyw i Abertawe ac yno y cyfarfu â Victor, yntau hefyd yn ŵr gweddw. Priododd y ddau ac ymgartrefu yn Ger-y-llan, Penrhyn-coch gan ddathlu oddeutu ugain mlynedd o fywyd priodasol. Yn ystod y cyfnod hwn, cafodd gyfle i ail-gydio gyda ffrindiau bore oes.

Bu Laura yn fawr ei gofal dros Emrys a Vic gan iddi nyrsio'r ddau yn eu gwaeledd. Yn dilyn marwolaeth Vic nid oedd Laura wedi mwynhau'r iechyd gorau ond roedd wrth ei bodd yn croesawu cyfeillion ar yr aelwyd ac yn mwynhau cwmni ei chymdogion, yn ogystal ag ymweliadau gan y teulu. Roedd yn meddu ar bersonoliaeth gynnes a hawddgar ac yn ymfalchïo yn ei phlant, yr wyrion a'r gor-wyrion.

Yn dilyn cyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar, symudodd i Blas Cwmcynfelin ac yno y bu farw.

Cynhaliwyd angladd Laura ym mynwent Cwmerfyn ar ddydd Iau, 30 Ebrill yng nghwmni'r teulu agosaf yn unig oherwydd y cyfyngiadau COVID-19, ond bwriedir cynnal oedfa goffa iddi pan fydd cyfyngiadau'r cyfnod hwn wedi dod i ben.

Yn y cyfamser, diolchwn amdani ac am ei dylanwad, ei daioni a'i gofal tyner dros eraill. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'r teulu yn eu galar a'u hiraeth o golli un oedd mor annwyl.

**Judith Morris**

Gweler teyrnged i Dr Tedi Millward ar t.7


## Diolch Ceredigion, a daliwch ati

### Coronafeirws (COVID-19)

Hyd yn hyn, mae trigolion Ceredigion wedi gwneud gwaith gwych i gadw niferoedd yr achosion o'r coronafeirws yn isel yn y sir drwy aros adref a dilyn y canllawiau.

Mae'r neges yn parhau i fod yn glir yng Ngheredigion – ni fydd unrhyw newidiadau i'r cyfyngiadau, ac mae'r cyfnod nesaf yma yn hanfodol i'r sir.

Bydd Llyfrgelloedd a Safleoedd Gwastraff Cartref yn parhau i fod ar gau am y tro. Diolchwn i chi am ddeall y penderfyniad hwn sydd wedi ei wneud er budd ein sir a'n trigolion.

Mae un newid bach gan Lywodraeth Cymru yn cynnwys caniatáu pobl i wneud ymarfer corff fwy nag unwaith y dydd yn lleol, heb unrhyw deithio diangen.

Rydym yn dibynnu arnoch chi, drigolion Ceredigion, am barhau i Aros Adref, Aros yn Lleol, ac Aros yn Ddiogel.


Cadwch hyd braich i leddfu'r baich.

www.ceredigion.gov.uk/coronafeirws

Cyngor Sir Ceredigion County Council

Caru·Love Ceredigion

GWASANAETH GARDDIO
ROBERT GRIFFITHS
Am bob math o waith garddio ffoniwch
(01970) 820924


eich gwefan leol
www.trefeurig.org
your local website
newyddion etc. i / news etc. to:
golygydd@trefeurig.org
William Howells,
Rhyd-y-gof, Penrhyn-coch,
Aberystwyth SY23 3EQ

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

**Am yr ail waith yn ei hanes ers ei sefydlu ym 1964 bu'n rhaid canslo Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch oherwydd y sefyllfa gyda COVID 19. Bu'n rhaid gohirio o'r blaen yn 2001 oherwydd clwyf y traed a'r genau. Gwahoddwyd tri fu'n gysylltiedig a'r Eisteddfod i gyfrannu. Arferai Elen Rhys gystadlu, bu Sian Teifi yn cystadlu a beirniadu a gwelir enw John Meurig Edwards fel enillydd yn aml -gan ennill y gadair yn 2012 a 2013**

# "Mynd o 'Steddfod i 'Steddfod..."

Yng nghanol sefyllfa enbyd sy'n anodd iawn i bawb, dyna hyfryd oedd derbyn gwahoddiad i gyfrannu at *Y Tincer*. Siom yw gorfod gohirio unrhyw eisteddfod, yn enwedig i'r rhai sy'n gweithio'n galed er mwyn cadw pethau i droi: i finnau fel beirniad, a ddechreuodd y flwyddyn gyda'r dyddiadur yn cynnwys sawl eisteddfod, mae'r tudalennau bellach yn wag. Fe ddaw haul ar fryn – a gobeithio'n fawr y daw'r eisteddfodau bach a mawr yn ôl i'n diddanu unwaith eto.

Eisteddfota fu bywyd 'mrawd a finnau drwy gydol ein plentyndod – Huw yn canu, a finnau'n adrodd. Aeth ein rhieni â ni i eisteddfota bron bob penwythnos, gan ddysgu llawer iawn gan feirniaid profiadol ar hyd y ffordd. A theithiau hyfryd oedden nhw hefyd, gyda ninnau fel teulu'n darganfod ambell ardal na fuom ynddi erioed o'r blaen. Yn aml iawn, byddem ni'n dod adre gyda dim ond cyngor ar sut i wella'r perfformiad, ond weithiau, deuai cwpan neu ddau adre, ambell dystysgrif, ambell fag bach wedi'i weu neu ei wnïo'n grefftus gyda swllt neu ddau y tu fewn, ac roedd y balchder teuluol – yn enwedig gan Nain, mam fy nhad – yn anferthol. Yn y llun, a dynnwyd yn 1974, fe welwch ein bod wedi dod adre ag ambell



gwpan yn ein tro, a Nain fyddai'n eu polisho nhw i gyd nes eu bod nhw'n sgleinio.

Dechreuodd y gwahoddiadau i feirniadu ar ôl ennill Gwobr Goffa Llwyd o'r Bryn yn 1978, a'm heisteddfod gyntaf oedd Eisteddfod Cylch yr Urdd, Aberystwyth ym mis Chwefror 1979. O edrych yn ôl, dwi wir ddim yn siŵr i ble'r aeth y 41 mlynedd diwethaf, ond rwy' wedi cadw pob un rhaglen o bob eisteddfod y bûm yn beirniadu ynddi erioed. Efallai wir bod y cyfnod rhyfedd yma'n gyfle i fwrw golwg drwyddyn nhw ac ail-fyw ambell brofiad hapus!

Wrth gwrs, roedd Eisteddfod Penrhyn-coch yn rhan o'n plentyndod, a dyma lle byddem ni'n cwrdd â hen ffrind annwyl i'r teulu, sef Eirlys Hughes, Cwmsymlog. Bu 'nhad yn aros gyda'r teulu ar sawl achlysur pan oedd e'n grwt bach, ac roedd yn sôn wastad am eu caredigrwydd a'u gofal. Dyma'r wyneb cyfeillgar, braf yr oeddwn yn ei weld yn y gynulleidfa pan ges i'r cyfle i ddod i Penrhyn-coch i feirniadu hefyd – a hynny *dair* gwaith, yn 1983, 1988 (y 25ain eisteddfod) ac yn 2008.

Eisteddfod braf oedd Eisteddfod Penrhyn-coch, a'r croeso mor ddiffuant a hael, y cystadlu'n safonol, a'r gynulleidfa'n niferus. A dyna hwyl oedd y tri beirniad canu y cefais gyfle i gydweithio gyda nhw yn y tair eisteddfod – Eilyr Thomas, John Daniel ac Eilir Owen Griffiths. Fe synnech chi mor hir y mae'r diwrnod yn gallu bod os nad oes cwmni da gyda chi wrth fwrdd y beirniaid, ac mae gen i atgofion melys iawn o gydweithio gyda'r tri yma, a llawer o edmygedd at eu gwybodaeth a'u crefft. Gwir y gair – os ydych chi eisiau gwybod unrhyw beth am safon beirniad canu, gofynnwch i'r beirniad llefaru! Wrth gwrs, mae'r gwrthwyneb yn wir hefyd...

Pob dymuniad da i Eisteddfod Penrhyn-coch y flwyddyn nesa. Ystyriwch y bwlch bach yma fel cyfle gwych i ail-fwstro'r milwyr at 2021!

**Siân Teifi**

# Atgofion Elen

Pan ges i'r gwahoddiad caredig gan Ceris Gruffudd i 'sgwennu pwt am f'atgofion o Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch, cytunais yn syth. Ond wedi meddwl a dechre rhoi gair ar bapur, fedrwn i ddim cofio'r union flynyddoedd bues i yno, ond yn sicr yn y cyfnod rhwng 1974 – 1980.

Chi'n gweld, ers yn ferch ifanc tua phump oed, bu fy Sadyrne i gyd yn rhai prysur yn mynd ar antur o 'Steddfod i 'Steddfod. Bydde mam yn mynd a fi i ddechre, ac yna fy nwy chwaer Blodwen ac Anwen ar hyd a lled y wlad. Dechre yn gynnar o fy ngartre ger Llyn Clywedog, Sir Drefaldwyn ac yna mynd i ble bynnag. Cwestiwn fy nhad cyn mynd fydde 'ble chi'n mynd heddiw, te?' a'r ateb gan fy mam bob tro, 'Ww -ddim yn rhy bell'. 'Chydig a wyddai fy mam un bore i dad osod cloc 'milltiroedd' y car ar sero. Wedi dychwelyd y noson honno, a dad yn dawel bach wedi cael cip ar y milltiroedd meddai, gyda direidi yn ei lygaid, 'Ddim yn bell dd'wedsoch chi? – a chithe wedi gwneud 180 milltir!' Dwi'n credu mai i Steddfod Llanrwst fuon ni'r adeg honno. Mae'r stori honno dal yn dipyn o jôc yn ein teulu ni.

Ie, fel'na roedd hi. Ond be' dwi'n ei gofio o Eisteddfod Penrhyn-coch? Wel, sdim syniad gen i os fûm yn lwcus yno ai peidio o ran cystadlu, ond mae ambell beth wedi saernio yn y cof. Yn un peth, dwi'n cofio bod y Steddfod hon yn cael ei chynnal mewn neuadd fodern, foethus, yn wahanol i sawl Eisteddfod leol arall oedd yn cael eu cynnal mewn capeli oer. Dwi hefyd yn cofio'r brechdane a'r cacenni blasus oedd i'w prynu mewn stafell pendraw'r neuadd. Er hyn ac i fy siom, bydde mam yn gyndyn i ni lenwi'n bolie gan y bydden ni wedyn yn cael mynd am drip i Aberystwyth a chael pryd o fwyd yn y Milk Bar. Felly roedd 'na dipyn o gyffro yn perthyn i 'Steddfod Penrhyn-coch ddiwedd fis Ebrill oedd yn golygu dipyn mwy na'r cystadlu.

Mae 'na un atgof arall clir gen i o Eisteddfod Penrhyn-coch. Y dalent oedd yno. Dwi'n cofio'n gwylio ac edmygu'r perfformwyr ifanc talentog oedd rhyw flwyddyn neu ddwy yn hyn na fi. Enwau rydyn ni bellach yn gyfarwydd â nhw. Delyth Medi o Lanbed, Shân Cothi o'r Farmers a dwi'n cofio Gwawr Owen yn canu'r piano a'i bysedd yn dawnsio dros y nodau. Go brin felly y ces i unrhyw lwyddiant yn yr Eisteddfod os oedden nhw yno. Ond nid dyna oedd yn bwysig wrth gwrs. Dysgais gymaint o grwydro a chystadlu mewn Eisteddfodau fel hyn ac ennill gymaint mewn ffyrdd eraill.

Anfonodd Ceris restr o'r beirniaid fu wrthi'n beirniadu yn yr Eisteddfod hon. Yn eu plith, y diweddar Jennie Eirian Davies yn beirniadu'r adrodd a Rhys Jones y cystadlaethau cerdd. Dwi'n eu cofio yn fy meirniadu inne sawl gwaith â'u geiriau caredig o gefnogaeth. Ond dydi rhywun ddim yn sylwi ar y pryd mor ffodus y bum o fedru perfformio o flaen arwyr fel hyn. Toedden ni'n lwcus?

Diolch felly i Eisteddfodau fel Penrhyn-coch. Maent wedi cynnig gymaint i bobol ifanc fel finne dros y blynyddoedd. Do, bu'r hen Corona yma fel pobman i darfu arni eleni - ond ymlaen a hi gyda hyder at y dyfodol. A phob clod i'r pwyllgorau prysur sy'n gwneud y cyfan yn bosibl.

**Elen Rhys**

Comisiynydd Cynnwys Adloniant, Cerddoriaeth

# Steddfota 2020

Profiad diflas iawn fu troi at wefan Cymdeithas Eisteddfodau Cymru yn ystod Mawrth ac Ebrill eleni, a gweld y geiriau 'Wedi'i chanslo' neu 'Wedi'i gohirio' yn ymddangos ar ôl pob eisteddfod. Gwaethygu'r oedd pethau o wythnos i wythnos, gydag eisteddfodau'r Urdd, Llangollen a'r Genedlaethol yn troi'n aberth i'r feirws dieflig sydd wedi parlysu'r wlad. O glywed am yr ymdrechion a wnaeth pobl Ceredigion i godi arian ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron, ergyd greulon oedd clywed na fyddai'r eisteddfod yn cael ei chynnal wedi'r cyfan. Ond doedd dim dewis arall, ac mae un peth yn hollol sicr- bydd y Cardis yn fwy penderfynol byth i ddarparu eisteddfod i'w chofio y flwyddyn nesaf.

O weld y rhestr eisteddfodau ar y wefan, ni allwn lai na synnu fod cymaint o eisteddfodau bach yn dal mewn bodolaeth, o ystyried y dyddiau yr ydym yn byw ynddynt. A rhaid canmol yn wir yr holl bobl hynny sy'n fodlon mynd ar bwyllgorau ac i drefnu eisteddfodau. Hebddyn nhw byddai bywyd diwylliannol aml i bentre wedi darfod. Fel brodor o Bont-rhyd-y-groes gallaf gofio'n glir y bri a oedd ar eisteddfodau pentref yn ôl yn y pumdegau a'r chwedegau. Dyma oedd prif ddigwyddiad diwylliannol pentrefi fel Pont-rhyd-y-groes, Ysbyty Ystwyth, Pontrhydfendigaid, Llanilar, Tregaron, Trisant a Chwmystwyth (mor braf yw gweld yr eisteddfod hon wedi ei hail-eni yn ddiweddar).




J M Edwards

Ar hyn o bryd rwy'n byw yn Aberhonddu, ac mae'n destun rhyfeddod i mi sut mae eisteddfodau fel Trallong, Cwmdu, Heol Senni, Capel Uchaf, Cwmwysg, Myddfai ac eraill yn dal i ffynnu. Eisteddfodau dwyieithog yw nifer o'r rhain, ond mae gan bob un ohonynt bwyllgorau hynod weithgar, sy'n cydnabod y byddai rhywbeth mawr a phwysig yn cael ei golli pe byddai'r eisteddfod leol yn darfod.

Atgofion melys iawn sydd gen i am eisteddfodau fy mro a'm sir pan oeddwn yn grwt yn tyfu i fyny, ac ynddyn nhw y cefais y profiad o wrando ar glasuron cerddorol fy ngwlad a'r byd ehangach. Ynddyn nhw hefyd y clywais ddarnau o lenyddiaeth fy ngwlad yn cael eu hadrodd gan berfformwyr a oedd yn feistri ar eu crefft. Wrth weld beirdd yn cael eu cadeirio ynddynt y magwyd ynof yr awydd i roi cynnig ar lunio ambell bennill ac i gystadlu.

Yn y cystadlaethau cerddorol, rhai o'r sêr oedd Richard Rees, Pennal; Ifan Lloyd, Crug-y-bar; Lloyd Davies, Tal-y-bont; W.E.Williams, Llanbryn-mair a Berwyn Davies, Felin-fach. Roedd bri ar y clasuron Cymraeg, megis 'Y Dymestl', 'Brad Dynrafon', 'Y Marchog', 'Llwybr y Mynydd', 'Ynys y Plant' a 'Galwad y Tywysog', a byddem hefyd yn mwynhau cael clywed rhai o'r clasuron o fyd yr opera, neu rannau o weithiau Handel neu Mendelssohn. Roedd yr eisteddfodau'n lle delfrydol i ieuenctid i fwrw'u prentisiaeth, ac roedd Dai Llanilar, Dafydd Edwards, Angela Rogers Lewis, Ifor Lloyd a Mair a Lynwen o Langadog yn gystadleuwyr ffyddlon o flwyddyn i flwyddyn. Ymysg yr adroddwyr caem y pleser o wrando ar J.R.Jones, Tal-y-bont; Vernon Jones, Pete Goginan, Ainsleigh Davies, Glyndwr Jenkins, a'r cyn-löwr hoffus, Graham Williams (Cefnfab), a fyddai'n teithio lan ar ei foto-beic. Trist oedd clywed am ei farwolaeth ef yn ddiweddar – bu'n gefnogwr ffyddlon i'r mân eisteddfodau hyd yn gymharol ddiweddar. A phwy a'i clywodd a all anghofio'r dihafal Alcwyn Magor yn adrodd digri – byddai pobl yn eu dyblau wrth ei weld yn sefyll ar y llwyfan, cyn iddo yngan gair!



Alcwyn Magor – fel Gandhi yng ngharnifal Rhydypennau. Llun: A Pugh Tincer Awst-Medi 1978)

Ie, atgofion melys yn wir, a gobeithio fod dyfodol ein heisteddfodau yn ddiogel am flynyddoedd i ddod. Yn yr ardal hon, peth braf yw gweld dysgwyr y Gymraeg, a mewnfudwyr yn cydweithio'n hapus gyda'r Cymry Cymraeg i gadw'r traddodiad yn fyw. Ar hyn o bryd sonnir am ddyfodol digon ansicr i nifer o'n sefydliadau a'n busnesau ac mae ansicrwydd ynglŷn â'r ffordd o fyw yng nghefn gwlad. Gobeithio'n fawr y bydd enwau'r holl eisteddfodau a ganslwyd neu a ohiriwyd eleni yn ail-ymddangos ar wefan y Gymdeithas Eisteddfodau'n fuan. A does gen i ddim unrhyw amheuaeth o gwbl na fydd yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron yn llwyddiant ysgubol. Edrych ymlaen yn barod!

**John Meurig Edwards, Aberhonddu**

**Gwefan newydd**

Newydd ei lansio mae gwefan newydd enillydd cadair Eisteddfod Penrhyn-coch 2018 – Judith Musker Turner. https://www.muskerturner.com/judith

**Colli Odette**

Trist oedd clywed ddechrau'r mis am farwolaeth sydyn Odette Jones – fu'n beirniadu yn Eisteddfod Penrhyn-coch yn 2016 – yn ei chartref yng Nghaerdydd. Roedd tad Odette yn reolwr fferm Trawscoed yn y 1970au a 1980au. Penodwyd hi yn bennaeth cerddoriaeth Ysgol Gyfun Cwm Rhymni ychydig cyn Eisteddfod Genedlaethol Cwm Rhymni 1990 ac ymddeolodd ar ôl ymweliad yr Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd â Chaerffili yn 2015.

# Profiad anhygoel yn Y Gambia

Ar y 25ain o Ionawr eleni roeddwn yn ddigon ffodus i hedfan i'r Gambia am brofiad gydag elusen o'r enw Ceesay Nursery School. Mae'r elusen hon ar gyfer plant ble mae eu teulu mewn tlodi ac yn methu fforddio addysg. Mae'r ysgol yn costio tua £3 y tymor, tra byddai mynychu ysgol gynradd sylfaenol yn costio tua £49 y tymor.

Daeth y cyfle i fod yn rhan o'r ymweliad hwn drwy Goleg Ceredigion lle dwi'n astudio a dwi yn fy mlwyddyn olaf. Roeddwn yn grŵp o 10 o bobl sydd i gyd yn wirfoddolwyr yr elusen, ynghyd â Chadeirydd yr elusen Diane Fisher.

Roedden ni allan yn y Gambia am wythnos a chefais brofiad o fod yn yr ystafell ddosbarth a wnes fwynhau chwarae pêl-droed yn ystod amser egwyl gyda'r plant. Roedd yn brofiad arbennig i weld cynnwys y gwersi, gweld sut mae Adama (yr athrawes ysgol) yn dysgu'r plant a hefyd bod yn rhan o'r gwersi. Er mwyn i blentyn allu symud ymlaen yn ei addysg, mae'n orfodol iddynt allu siarad Saesneg a deall mathemateg. Mae'r ysgol yn dysgu'r ddau bwnc hyn ynghyd ag eraill fel celf. Tra'r oeddwn i allan yn ymweld â'r ysgol, roedd y plant yn amrywio mewn oedran rhwng 3 a 7, a phob un â galluoedd gwahanol. Yn ystod amser gwersi, roeddwn i'n gallu gweld sut roedd y plant yn ymgysylltu ac roedd eu brwdfrydedd yn dangos cymaint roedden nhw eisiau bod yn yr ysgol a chael eu haddysgu. Roedd hi'n drist gweld rhai plant y tu allan i'r ysgol yn dymuno bod tu mewn yn cael eu haddysgu. Mae'r disgyblion hefyd gydag ardal tu allan ble maent yn dysgu sut i dyfu llysiau sy'n datblygu sgil hanfodol i'r dyfodol.

Er mwyn sicrhau bod y disgyblion yn cael dechrau da i'r diwrnod mae'r ysgol yn darparu brecwast am ddim







bob bore cyn dechrau'r gwersi. Mae'r brecwast yn uwd a rhywfaint o iogwrt ar ei ben. Ceisiais beth ac roedd yn flasus.

Mae'r elusen hefyd yn gweithio gyda mamau'r plant a gelwir hyn yn 'Womans project'. Mae'r rhan hon o'r elusen wedi cael eu sefydlu i helpu mamau i ennill incwm am nad oes ganddynt unrhyw waith gan fod mamau'n tueddu i aros gartref yn coginio, glanhau ac yn gofalu am eu plant. Mae'r prosiect yn cynnig llawer o gyfleoedd gan eu bod yn dod â menywod at ei gilydd i weithio fel tîm a datblygu sgiliau. Ar hyn o bryd, maent yn gwneud sebon gyda thri gwahanol gynhwysiant sy'n cynnwys deilen o goed sy'n tyfu yn Y Gambia. Yn ogystal mae rhai'n gwneud gemwaith fel breichledi a mwclis. Hefyd, penderfynodd y gymuned ar bwy fyddai'n cael ei gyflogi i goginio'r uwd i'r plant yn yr ysgol, sydd hefyd yn dod ac incwm i un o'r rhieni'n ariannol.

Mae'r elusen hefyd yn caniatáu i bobl noddi plentyn. Mae'r nawdd yn talu am ffioedd ysgol y plentyn, gan gynnwys gwisg ysgol, llyfrau, pensiliau ac ati. I blentyn yn yr ysgol gynradd, mae'n oddeutu £85 y flwyddyn, ac i blentyn sy'n mynychu addysg uwchradd/bellach mae'n £100 y flwyddyn.

Roedd bod allan yn y Gambia yn agoriad llygad enfawr. Mae'n fyd hollol wahanol ac mae'n drist meddwl nad yw rhai plant yn ddigon ffodus i allu cael unrhyw fath o addysg oherwydd tlodi'r teulu a chost addysg. Mae Ceesay Nursery School mor bwysig i'r gymuned ac yn cefnogi nid yn unig plant ond hefyd y mamau.

Cyn fy nhaith fe wnes i godi arian ar gyfer yr elusen. Roedd fy nheulu yn gefnogol iawn a gwnaethom dri bore coffi, a oedd yn hynod lwyddiannus. Yna ar y 4ydd o Ionawr cerddais bellter marathon (26.3 milltir) ar hyd promenâd Aberystwyth. Roedd y daith gerdded hon yn heriol ond yn werth chweil gan godais gyfanswm o £1200 ar gyfer yr elusen. Ar y daith deallais fod yr arian hwn yn cefnogi'r ysgol am flwyddyn gyfan a hefyd costau'r brecwast i'r plant. Roedd fy amser yn Y Gambia yn brofiad gwerthfawr iawn ac edrychaf ymlaen at ymweld eto yn fuan.

Am ragor o wybodaeth ac i ddysgu mwy am yr elusen ewch i https://ceesayschool.com/

**Megan Harvey, Llandre**

# Golygydd newydd *Golwg*

Lle mae rhywun yn dechrau wrth sôn am Garmon Ceiro, gwedwch? Mae rhywun yn teimlo bron eich bod chi'n trafod seren ffilm neu ryw ffigwr hanesyddol, lle mae'n anodd dirnad y linell rhwng y gwirionedd a'r chwedlonol. Mae'r amwysedd, wrth gwrs, yn deillio o'i persona cyhoeddus lliwgar sydd wedi denu diddordeb cynyddol dros y blynyddoedd diwethaf yma, a hynny'n gyntaf yn ei waith fel golygydd gwadd y cylchgrawn blynyddol mwyaf adnabyddus yng Nghymru, sef *Lol/Dim Lol*. Dyna oedd priodas hapus iawn, wrth gwrs, a'i ffraethineb, ei lygad am stori, a'i barodrwydd i wthio ffiniau yn creu cynnyrch oedd yn boddhau awch yr Eisteddfodwyr am jôcs, sïon, a chynllwynio gwleidyddol. Wrth gwrs, un o'r rhesymau bod ganddo'r crebwyll i olygu y cyfrolau llwyddiannus rheiny oedd oherwydd ei fod yn anifail gwleidyddol, un a fu am gyfnod lled-aflwyddiannus (ei eiriau ef!) wedi'r Brifysgol yn gweithio gyda Phlaid Cymru yn y Senedd.

A dyma un o'r rhesymau, mae'n siwr, bod gyda ni le i longyfarch Garmon yn wresog am ei benodiad diweddar fel Prif Olygydd Cylchgrawn *Golwg a gwefan Golwg360*. Mae'n bosib bod y newyddion wedi bod yn syndod i ambell un a fyddai wedi disgwyl ei fod a'i ddwylo'n llawn gyda'i waith blaenorol fel uwch-gyfieithydd gyda Llywodraeth Cymru, ac ambell brosiect 'allgyrsiol' lle byddai'n ymarfer ei ddawn am ysgrifennu a dychan. Ond, law yn llaw a'r persona cyhoeddus sydd wedi ein diddanu ar y wefan gymdeithasol twitter dros y blynyddoedd, a'r cymeriad cymdeithasol, digri a chellweirus sydd yn gymaint rhan ohono, mae yna hefyd unigolyn difrifol – a phenderfynol dros ben. O brofiad personol, rwyf wedi colli cyfrif o'r troeon rydym wedi treulio nosweithiau cyfan yn dadlau materion dyrys iawn, ac methu dod



i unrhyw gytundeb – er mae'n debyg y byddai Garmon yn awgrymu bod hyn yn ganlyniad i fy methiant innau i ddeall ei fod yn gywir!

Ei brif diddordeb, wrth gwrs, tu hwnt i wleidyddiaeth a materion cyfoes yw'r bêl gron. Byddai modd, o bosib, esbonio'i ymroddiad obsesiynol, bron, i'r gêm trwy gyfeirio at y ffaith mai Arsenal yw ei dîm, efallai yn sgîl eu llwyddiant yn nyddiau ei blentyndod (y ddau yn sbel yn ôl erbyn hyn, wrth gwrs). Byddai modd eto cyfeirio at y cysylltiad ingol yna gyda'r gêm a gafodd ei meithrin ym mhob cefnogwr o'r tîm cenedlaethol cyn ein gwaredigaeth ym Mordeaux yn 2016. Ond, rwyf o'r farn gadarn mae ei ran yn nhîm llwyddiannus Ysgol Rhydypennau yn nhymor bythgofiadwy 1990-91, a rhannu'r profiad o ennill y bencampwriaeth Mini Minors o dan hyfforddiant Mr Havard, ac yng nghwmni cewri pêl-droed bro *y Tincer,* megis Stephen Harrison, Nicky Smith – a minnau – a seliodd ei ffawd a'I gariad at y gêm.

Beth bynnag y gwirionedd am hynna, cyfraniad nodedig arall gan Garmon i'r wasg Gymraeg oedd ei gyfnod fel gohebydd chwaraeon *y Cymro* ar ei newydd wedd – atgyfodiad gyda chryn gyswllt efo bro'r *Tincer,* gyda Williams arall – Wyn y tro hwn – yn rhan o'r tîm a ail-lansiodd y papur ac a sicrhaodd bod Garmon a digrifwr arall o'r ardal, Esyllt Sears (Dafydd gynt) yn gyfranwyr hollbwysig i'r papur.

Yn y cyfnod hwnnw, hefyd, bu Garmon yn gyfranwr neilltuol o bwysig i brosiect newydd arall, sydd ers hynny hefyd wedi ennill ei blwyf, sef darpariaeth arlein S4C i'r genhedlaeth iau - Hansh. Ymysg yr holl ffilmio newydd oedd yn ennyn cyffro yn ystod cyfnod cynnar, arbrofol hwnnw – ac a sicrhaodd ei lwyddiant ymysg y gynulleidfa newydd – Bocs Bry, a chreadigaeth Garmon oedd hwnnw ar y cyd a chyfaill o Ysgol Penweddig, Aled Evans. Mae Bry, wrth gwrs, yn parhau yn ei gyfresi 'sitcom' ar Hansh.

A nawr ymlaen at bennod newydd, a'r cyfle i ddatblygu un o sefydliadau hirhoedlog bywyd cyhoeddus y Cymry Cymraeg. Os yw'r cynnyrch yn llwyddo i adlewyrchu rhywfaint o ddoniau a rhinweddau'r golygydd newydd, rwy'n siwr y byddwn ni am fwynhau gwledd o ysgrifennu difyr, beirniadaeth ddeifiol, hiwmor a difyrrwch, ac ambell foment o angerdd ac emosiwn.

A phob clod iddo am dderbyn yr her, mewn cyfnod cymdeithasol a gwleidyddol anodd, a hynny cyn dechrau'r aflwydd diweddar yma. Dymunwn yn dda i'w deulu hefyd, ei dad Iwan a'i frawd Deiniol ei wraig Julie (cyfarfu'r ddau yn ystod cyfnod Garmon yn addysgu yn Rennes – pennod ar gyfer y tro nesaf rwy'n gorfod canu ei glodydd) a'u merch fach Eiry Noëlle, sydd, wrth gwrs wedi'i henwi ar ôl mam Garmon, y ddiweddar Eiry Jones o Dole. Mae'n siwr y byddai Mam-gu Eiry Noëlle wedi rhannu'r balchder y mae cymuned y Dole yn ei deimlo dros un o'i feibion. *Chapeau*, Garmon.

**Huw Ll. Williams, Caerdydd**







## Y Coronafeirws yn Awstralia

Rydym ni'n lwcus yma yn Awstralia i gymharu â Phrydain gan mai dim ond 80 sydd wedi marw hyd yn hyn a 6500 wedi cael eu profi'n bositif.

Cryfder Awstralia yw ei bod yn ynys enfawr gyda digon o le i boblogaeth o 25 milliwn. Mae hyn yn amlwg yn y Northern Territory sydd a dim ond 27 o bobl wedi cael eu testio'n bositif. Mewn gwladwriaeth fel NSW sydd yn fwy poblog, mae mwy o achosion yn y fan honno.

Mae'r Llywodraeth ffederal wedi cau ffin y wlad a phob gwladwriaeth neu diriogaeth wedi gosod rheolau llwyrgloi penodol i'r sefyllfa sydd yn eu hawdurdodaeth nhw.

Does dim awyrennau yn mynd mewn nag allan o Awstralia, ac maent hefyd wedi cyfyngu'r teithio domestig. Mae ffin pob gwladwriaeth a territory wedi cau a rhaid cael caniatâd y llywodraeth i groesi'r ffin.

Yn anffodus mae rhai pobl yn dal i fynd i draethau hardd Awstralia sydd wedi gorfodi'r cyngor lleol i gau nifer o'r traethau mwyaf adnabyddus fel Bondi a'r Gold Coast.

Y broblem fwyaf sydd wedi effeithio Awstralia yw'r llongau mordaith sydd wedi cael eu gwahardd rhag docio mewn porthladdoedd o amgylch Awstralia. Ar hyn o bryd mae yna tua ugain o longau o amgylch Awstralia yn gwrthod gadael, a'r bobl sydd ar y llongau ar eu gwyliau yn cael eu gwrthod rhag dod i'r lan ac felly yn dal y feirws o'r rheini sydd yn sal yn barod.

Mae'r economi wedi dioddef yn ofnadwy y flwyddyn yma. Yn gyntaf, dros yr haf, cawsom y tannau gwaethaf ar record yn llosgi rhannau helaeth o'r arfordir dwyreiniol, a chyn i'r economi gael siawns i ail-adeiladu, mae'r feirws wedi gorfodi busnesau i gau a llawer o bobl wedi colli gwaith. Mae hyn wedi cael effaith erchyll ar anifeiliaid cynhenid Awstralia gydag amcangyfrif bod dros filiwn wedi marw, a gan fod pobl yn ddiwaith mae llai o bobl a gwyddonwyr ar gael i ail-sefydlu cartrefi naturiol yr anifeiliaid ar ôl y tannau.

Mae'r canolfannau hamdden a llefydd cyffelyb wedi cau ond mae rhai siopau ar agor. Rydw i a'r rhai sydd yn medru, yn gweithio o gartref, ond mae Miguel, y gŵr, yn gweithio mewn swydd ble mae galwad iddo fynd allan i weithio. Roeddym wedi meddwl dod ar wyliau adref i Gymru ac i Colombia i weld rhieni Miguel eleni, ond wrth gwrs nid yw hyn yn bosib o dan yr amgylchiadau. Flwyddyn nesaf gobeithio!

**Lisa Torres (née Humphreys) Melbourne – gynt o Benrhyn-coch**

## Lydia yn Slofenia

Rydw i wedi bod yn Slofenia bellach ers bron i 8 mlynedd. Fe ddes i yma i helpu sefydlu undebau Cristnogol yn y prifysgolion. Ers i'r Coronafirws ddod mae llawer o bethau wedi newid. Ymatebodd Slofenia yn gyflym gan ein bod yn ffinio â'r Eidal ac roeddem yn syth i fewn i'r *lock-down*. Meddyliais y byddai'n anodd bod mor bell o gartref mewn amser o argyfwng fel hyn, ond i fod yn onest rwy'n falch fy mod yn Slofenia.

Ac eithrio pethau gwir hanfodol, mae'r llywodraeth wedi gwahardd pob cynulliad cyhoeddus o fwy na dau o bobl ac maent wedi cau pob siop ac ardal gymunedol sydd ddim yn hanfodol. Hefyd ni chawn deithio allan o'n rhanbarth drefol (*municipalities*). Mae Slofeniaid yn cymryd eu hiechyd o ddifri ac mae pawb wedi ceisio aros adref gymaint a phosib. Mae wedi bod yn rhyfedd gweld sut mae gwledydd gwahanol yn ymateb i'r sefyllfa, yn enwedig dinasyddion gwledydd comiwnyddol/sosialistig gynt sydd wedi arfer ufuddhau i'w llywodraeth sy'n cyfyngu ar eu rhyddid. Gan fod y firws wedi'i gynnwys i raddau helaeth, mae ofnau pobl rwan yn fwy cysylltiedig â'r effaith economaidd.

Rydw i a'r tîm yma wedi canslo ein holl ddigwyddiadau mawr ac yn cynnal ein grwpiau bellach ar y we. Roedd yn drueni mawr gan ein bod eisoes wedi cynllunio semester llawn o ddigwyddiadau gwych ac mae wedi bod yn biti gorfod eu canslo neu eu gohirio. Fel mae llawer yn profi yn y dyddiau rhyfedd yma mae wedi bod yn rhwystredig iawn methu cyfarfod â phobol wyneb i wyneb. Er hynny mae gennym ni lawer o bethau i fod yn ddiolchgar amdanynt. Rydw i wedi bod yn gwneud yn siŵr fod y myfyrwyr rwy'n eu hadnabod yn iawn a'u hannog i ddefnyddio eu hamser yn greadigol. Mae wedi bod yn gyfle i brofi ein ffydd a dangos at bwy neu beth yr ydym yn troi ato ar gyfer teimlo'n saff. Fy mhrofiad i yw fod gweld breuder y pethau yr oeddem yn arfer ddibynnu arno wedi achosi i bobl fod yn fwy agored i ofyn cwestiynau am Dduw. Mae cael amser i feddwl am gwestiynau mawr bywyd yn anodd ond yn beth da. Rwyf wedi gweld bod fy ffydd yn Nuw fel angor yn yr amser yma. Mae'n gymaint o gysur gwybod nad yw Iesu yn cadw pellter cymdeithasol ac y gallwn droi ato ef am help drwy'r adeg.



Mared Emlyn, Mair Lenny Turner a Lydia yn canu ar COR-ONA

Yn ddiweddar gefais hwyl yn canu gyda ffrindiau coleg a'i roi ar grŵp 'Côr-ona' ar *Facebook*. Dewision ni un o'm hoff emynau sydd efo geiriau sydd wedi bod yn gymaint o help i mi yn Slofenia. Mae'r emyn yn dweud *'Beth bynnag a ddaw, Ti a'm dysgaist i ddweud "Diogel wyf, diogel wyf gyda Thi."* Rwyf wedi profi pa mor wir yw'r geiriau yma lot fawr o weithiau, neu yn fy ngeiriau llai barddonol fy hun- 'byddai'n OK efo Iesu!'

**Lydia Adams o Benrhyn-coch yn Slofenia**


## COVID 19 yn Kuwait

O ddinas llawn bwrlwm, tawel yw Kuwait heddiw. Ramadan gwahanol fydd hi eleni. Yr ydym ar ddiwrnod 54 lockdown a cwrffyw o 4p i 8 yb. Mae ambell ardal ar lockdown cyflawn am bythefnos arall. Yr ydym yn cael mynd am dro a siopa bwyd.

Diolch byth am y dechnoleg oherwyddd dwi'n dal yn medru cadw mewn cysylltiad efo fy nghlientiaid; bu hyfforddi yn sialens newydd ond yn un dwi yn ei mwynhau.

Wrth gynnal ein gilydd yr ydym yn ddiolchgar i Kuwait am ein gwarchod. Hyd yn hyn mae'r wlad wedi gwneud ymdrech anhygoel. Cadwch yn saff!

**Lynne Hughes (o Benrhyn-coch) athrawes ddawns yn Kuwait**



## Paris Arlein



Rydw i'n treulio llawer o'r flwyddyn ym Mharis, oherwydd gwaith fy nhad. Ar hyn o bryd, rydw i yn Rhydypennau, oherwydd gwaith fy mam. Yn fuan ar ôl i ni gyrraedd gartref, caewyd yr ysgolion yn Ffrainc. Er hynny, mae'r ysgol yn dal i fynd bob dydd – ar lein. O fore Llun hyd bnawn Gwener rydw i'n mynychu dosbarthiadau trwy gyfrwng Google Meet neu Zoom ac yn gwneud y gwaith sy'n cael ei osod i ni. Rydw i'n dal i gael gwersi côr hefyd. Ond efo ambell beth, fel chwaraeon neu y grŵp siambr dwi'n chwarae ynddo, mae'n anos. Mae'r athrawes gerdd wedi gorfod darganfod ffordd wahanol o wneud pethau. Mi wnaethon ni geisio chwarae fel grŵp ar Google Meet ond roedd y sain yn dod trwodd ar amseroedd gwahanol. Felly rŵan mae pawb angen recordio ei hun yn chwarae a rhoi'r recordiad ar wefan lle mae modd i'r offerynwyr eraill glywed ac ymarfer ar yr un pryd. Mae llawer o bethau'n cymryd mwy o amser ar lein. Ac weithiau, mae'n ddryslyd a dwi'n anghofio be dwi fod i'w wneud. Y gwersi Almaeneg sy'n gweithio orau, am ryw reswm. Mae fy mrawd mawr, Harri, yn dweud fod rhai o'i athrawon yn cynnal gwersi lle dim ond eu llais sydd i'w glywed a'r gwerslyfr i'w weld. Mae'r athrawon yn gallu swnio fel robotiaid hefyd achos nad ydi'r cyswllt gwe yn ddigon cryf, ac mae'n gallu bod yn flinedig iawn pan mae llawer o wersi fel yna, un ar ôl y llall. Mae'n dweud y byddai'n gweithio'n well i gael y gwaith wedi ei yrru at bawb yn lle. Rhaid codi'n gynnar hefyd achos weithiau mae'r gwersi'n dechrau am 8, sy'n golygu 7 fan hyn yng Nghymru. Mae'r ysgolion yn mynd i ddechrau ailagor nes ymlaen fis Mai. Yr ysgolion cynradd fydd yn cael blaenoriaeth. Ond ar hyn o bryd, mae Ffrainc wedi ei rhannu'n dair ardal – gwyrdd, oren a choch. Mae Paris yn yr ardal goch ac felly yn gorfod aros a pheidio ailagor ysgolion, am y tro. Rydw i hefyd yn mynychu Ysgol Gymraeg Aberystwyth a dyma fy mlwyddyn olaf yn yr ysgol gynradd. Oherwydd y feirws tydw i ddim yn gwybod a fyddaf yn gallu mynd yno eto eleni!

**Iago Antonnis Rhydypennau a Paris**

## G'day o Dde Awstralia

Pan gyrhaeddodd COvid-19 y cyfandir yma, symudodd y llywodraeth yn gyflym trwy gau y ffiniau I ymwelwyr o dramor, yn ogystal a rhai o daleithiau cyfagos. Yn ffodus ma Megan a fi yn dal I weithio ac mae'r bechgyn ychydig yn siomedig fod yr ysgol yn dal ar agor!! Erbyn hyn ni fu unrhyw achosion newydd yn Ne Awstralia yn y pythefnos ddiwethaf. Ern a fuom wedi ein cloi yn llwyr – nid oes modd I grwp o fwy na 10 person gyfarfod ac mae rheolau o ymbellhau cymdeithasol mewn gyrm. Buom yn dal i fynd allan fel teulu gan fod gennym ddigon o dir agored a digon o le i bawb. Er ein bod ymhell I ffwrdd, diolch I dechnoleg rydym wedi medru cadw mewn cysylltiad gyda Dad-cu a Mam-gu (Alun a Louisa) ac Yncl Sion. Cymerwch ofal!

**Rhydian Phillips (Bow Street), Megan, Aled a Bryn o Dde Awstralia**



## Y Sefyllfa yn Japan

Dwi'n byw mewn sir o'r enw Fukuoka ar ynys ddeheuol Kyushu yn Japan. Mae tua 4 miliwn o bobl yn byw yn Fukuoka – maint tebyg i Gymru – ond dim ond tua 600 o bobl sydd wedi dal y coronafeirws a dim ond 22 o bobl sydd wedi marw. Er fod Japan yn agos i China, mae'r nifer yn Japan yn isel iawn i gymharu â Chymru a nifer o wledydd eraill. Roedd llywodraeth Japan yn gyflym i gau ysgolion a stopio gwaith diangenrheidiol. Er bod dim pwer gan y llywodraeth i orfodi pobl i aros adre, mae'r rhan fwyaf o bobl i weld yn dilyn yr argymhelliadau. Hefyd, mae Japan yn gymdeithas lle mae cyffwrdd corfforol ddim yn digwydd yn aml. Yn lle ysgwyd llaw, mae pobl yn ymgrymu at ei gilydd, ac mae llawer o bobl yn defnyddio masciau pob dydd i osgoi dal annwyd neu i helpu gyda chlefyd y gwair.

Dwi'n gweithio mewn ysbyty sydd yn trin pobl gyda'r coronafeirws. Dwi weithiau yn gorfod cyfieithu o Japanaeg i Saesneg ar gyfer cleifion o dramor sydd ddim yn medru siarad Japanaeg. I helpu cleifion gyda'r coronafeirws, dwi wedi bod yn cyfieithu llawer o ddogfennau anarferol! Diolch byth fod y nifer o gleifion yn fy ardal i yn eithaf isel ac mae'r ysbyty i weld yn ymdopi hyd yn hyn.

Mae fy mhlant wedi bod adref o'r ysgol am dros fis nawr, ac mae pawb yn awyddus i fynd yn ôl i fywyd normal ac i weld eu ffrindiau. Dwi hefyd yn edrych ymlaen i fynd am beint i'r "izakaya" (tafarn) leol! Gobeithio bydd yr hunllef yma yn dod i ben cyn bo hir ac y bydd pawb yn aros adre ac yn saff tan hynny.

**Gareth Jenkins ( o Gapel Bangor – yn Japan)**

## Brawd a chwaer ar wasgar



Elis, Mari ac Ioan

Cafodd brawd a chwaer o 14 Garregwen, Bow Street, brofiad o'r sefyllfa ar ddau gyfandir gwahanol yr wythnosau diwethaf.

Mae Mari Wyn Lewis allan yn Awstralia ar daith o angylch y byd ac yn dal i weithio i'r Brifysgol yn Sydney. Aiff i mewn i'r gwaith yn ddyddiol gan gadw y pellter angenrheidiol. Mae llefydd yn dechrau cael eu hagor yna erbyn hyn. Mae Mari yn byw mewn fflat yn edrych allan ar draeth Bondi – ond nid yw pobol yn cael mynd ar y traeth ar hyn o bryd. Gobeithia fedru aros ychydig eto cyn dychwelyd adref.

Mae ei brawd – Elis Wyn – newydd ddychwelyd adref ar ôl gorffen ei ail flwyddyn mewn Prifysgol yn Charlotte , Gogledd Carolina, UDA lle cafodd Ysgoloriaeth Golff; mae hefyd yn dilyn gradd mewn Astudiaethau Busnes. Er fod y Coleg wedi cau ychydig nôl cafodd aros ar y safle fel myfyriwr tramor gan barhau ei gyrsiau ar-lein. Daeth cyfle i hedfan gartref ddiwedd Ebrill. Mae Elis yn falch o fod adre, ond yn edrych ymlaen i fynd nôl i'r Unol Daleithiau ar gyfer ei drydydd flwyddyn diwedd Mis Awst.

# Colofn Enwau Lleoedd



Bydd darllenwyr *Y Tincer* yn gyfarwydd â phlas *Gogerddan* ar ddyffryndir afon Clarach islaw pentref Penrhyn-coch.

Codwyd yr adeilad presennol tua diwedd yr ail ganrif ar bymtheg a'i helaethu'n sylweddol yn 1860, ond mae trawst cerfiedig a ganfuwyd yno (ac sydd bellach yn yr Amgueddfa Werin yn San Ffagan) yn brawf bod tŷ canoloesol o bwys ar y safle cyn hynny.

Fe'i gwerthwyd i Brifysgol Cymru Aberystwyth yn 1949 a daeth yn gartref i Fridfa Blanhigion Cymru yn fuan wedyn. Mae'n adnabyddus heddiw fel Athrofa Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS) Prifysgol Aberystwyth.

Daw'r cofnod cynharaf o'r enw o siarter a luniwyd ym Mryste yn 1284 sy'n trosglwyddo perchnogaeth Genau'r Glyn i ŵr o'r enw Roger Mortimer gan ddisgrifio ffiniau'r diriogaeth fel hyn:

> the land of Ganerglen, lying between Redhyr and the brook called ***Gogerthan***, and from ***Gogerthan*** to Abercaudoure and thence to Helegenwendith and thence to Thlevenant and thence to Devy and so to the sea, and from the sea to Elery and so to the Old mill and thence to the brook called Redepenne and thence to Redecastel and thence along the road to Redhyr
>
> Calendar of the Charter Rolls ii. t.281

Enw afon yw *Gogerddan* yn y ffynhonnell hon, sef afon Clarach mae'n debyg. Ond gwyddom bod *Gogerddan* yn cael ei ddefnyddio am yr annedd erbyn yr unfed ganrif ar bymtheg gan fod y bardd Siôn Ceri, mewn cywydd mawl i Risiart ap Rhys ap Dafydd Llwyd, Gogerddan, yn disgrifio'r gŵr hwnnw fel:

> Gosawg i'w glych, gwisgi glân,
> Gwalch gwiw gwrdd gweilch ***Gogerddan***
>
> *Gwaith Siôn Ceri* (gol. A. Cynfael Lake; 1996) t.[119]

Ar droad yr unfed ganrif ar bymtheg, cofnododd Siôn Dafydd Rhys draddodiad llafar oedd yn esbonio'r enw drwy ei gysylltu ag *ogof* yn perthyn i gawr o'r enw *Erddan* neu *Gerddan*:

> *Erdhan* nev *Gerdhan* gawr oedh yn trigo yn Castelh Erdhan ac mywn '*Ogobh* a 'elwir etto ***Gogobh Erdhan*** gawr, ac yn Bhyrr ***Gogerdhan***, ac ar bhrynn a 'elwir Brynn Bronn Gastelhann yghwlad Aber Teibhi
>
> Llawysgrif Peniarth 118, 835

Tybed ai'r un cawr oedd hwn â'r un y mae llên gwerin lleol yn tystio ei fod yn arfer cysgu yn y caeau ger croesffordd *Gogerddan*, gyda'i ben wrth odre un o'r meini hirion a'i draed wrth y llall?

Ond a rhoi'r traddodiadau hyn o'r neilltu, beth yn union yw tarddiad *Gogerddan*?

Mae'n gyfuniad o'r gair *gogerdd* (o *go*- 'lled; bychan' a *cerdd* 'cerddediad, symudiad') yn golygu 'tir sy'n disgyn, llethr, teras', a'r terfyniad bachigol -*an*.

Gan na wyddom ai enw'r afon ynteu'r annedd oedd *Gogerddan* yn wreiddiol, nid yw ei arwyddocâd yn hollol amlwg, ond gallasai fod yn ddisgrifiad o'r llwyfan o dir ychydig yn uwch sy'n gorwedd ar hyd ochr ddeheuol y dyffryn.

Gellir dwyn cymhariaeth rhwng yr enw a hen gaer *Gogerddan* i'r gogledd o bentref y Foel, sir Drefaldwyn; tyddyn diflanedig *Gogerddan* ar Ros Cilcennin yng nghanolbarth Ceredigion; a *Chwm Gogerddan* i'r de-ddwyrain o Grug-y-bar, sir Gaerfyrddin.

Yr un elfen, *gogerdd*, a geir hefyd yn y *Gogarth* ger Llandudno, sir Gaernarfon, a'r *Gogarth* rhwng Aberdyfi a Phennal ym Meirionnydd, ond bod y gair *garth* wedi dylanwadu ar yr enwau hynny.


**Angharad Fychan**
Paratowyd gyda chefnogaeth Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru
**www.cymdeithasenwaulleoedd.cymru**

GWE Cambrian WEB
Gwefannau Gwych o Gymru
Creu Gwefannau
Marchnata Digidol
Pecynnau Gofal Gwefan
a llawer mwy!
*Gwasanaeth Gymraeg*
Cysylltwch Heddiw
info@cambrianweb.com
01970 623 906

D J Evans Cyfarwyddwyr Angladdau
Busnes teuluol gyda dros 60 mlynedd o brofiad
Kairali, Penrhyn-coch SY23 3EQ
Gwasanaeth personol, urddasol gyda chydymdeimlad
Gwasanaeth Pedair Awr ar Hugain
evansfunerals@talk21.com
Aberystwyth 01970 615328
Penrhyn-coch 01970 820249
Machynlleth 01654 700006

SIOP
SGIDIAU GWDIHW
Shan Jones
8 Ffordd Portland,
Aberystwyth
SY23 2NL
01970 617092
GWASANAETH
GOFAL TRAED
Ceiropodydd /podiatrydd graddedig
ac wedi cofrestru efo'r
H.C.P.C., S.R.Ch., M.Ch.S., B.S.C.Pod, Dip.Pod.Med.

# Coronafeirws: llyfr i blant




Mae cwmni Atebol wedi cyhoeddi addasiad Cymraeg o Coronafeirws – sef llyfr AM DDIM i blant 5–9 oed sy'n rhoi ffeithiau am goronafeirws a'r mesurau i'w reoli. MARI LISA, un o olygyddion y Blewyn Glas sydd wedi addasu'r fersiwn Cymraeg ac mae hi a phawb fu ynghlwm â'r fersiwn Cymraeg a Saesneg (gan gynnwys Axel Scheffler, darlunydd The Gruffalo) wedi gwneud y gwaith yn ddi-dâl.

Mae nifer o rieni a gofalwyr yn cael trafferth i egluro'r amgylchiadau presennol i'w plant sy'n teimlo'n bryderus a dryslyd. Ymgais yw'r llyfr hwn i egluro'r feirws a chysuro plant drwy geisio ateb y cwestiynau y bydd plant yn eu holi megis, beth yw coronafeirws? Sut ydych chi'n ei ddal? Beth alla i wneud i helpu?

Bwriad y cyhoeddwyr yw fod y llyfr ar gael i bob plentyn a theulu felly maent yn ei gynnig am ddim. Ond, maen nhw'n gobeithio y gwnewch gyfraniad i'r gwasanaeth iechyd ar https://www.nhscharitiestogether.co.uk

Ceir mwy o wybodaeth am y llyfr ar wefan Atebol – www.atebol.com – i'w ddarllen fel llyfr rhyngweithiol neu ei lawrlwytho fel pdf

Ydych chi'n chwilio am lyfr sy'n egluro'r coronafeirws mewn ffordd ddealladwy a syml i blant oedran cynradd? Dyma addasiad Cymraeg Atebol o lyfr gwybodaeth AM DDIM cwmni cyhoeddi Nosy Crow, sydd wedi ei ddarlunio gan ddarlunydd llyfrau Gruffalo, Axel Scheffler.

Dyma lyfr digidol ar gyfer plant oedran cynradd, ar gael am ddim i'w ddarllen ar y sgrin neu i'w argraffu, yn egluro beth yw'r coronafeirws a'r mesurau i'w reoli. Ysgrifennwyd y llyfr Saesneg gwreiddiol gyda mewnbwn arbenigol gan yr ymgynghorydd Yr Athro Graham Medley o Ysgol Hylendid a Meddygaeth Drofannol Llundain, dau brifathro a seicolegydd plant.

Mae'r llyfr yn ateb y cwestiynau allweddol canlynol mewn iaith syml sy'n addas ar gyfer plant rhwng 5 a 9 oed:

- Beth yw'r coronafeirws?
- Sut mae rhywun yn dal y coronafeirws?
- Beth sy'n digwydd pan fydd rhywun yn dal y coronafeirws?
- Pam mae pobl yn poeni am ddal y coronafeirws?
- A oes ffordd o wella pobl o'r coronafeirws?
- Pam mae rhai o'r llefydd rydyn ni fel arfer yn ymweld â nhw ar gau?
- Sut beth yw hi i fod gartref drwy'r amser?
- Beth alli di ei wneud i helpu?
- Beth sy'n mynd i ddigwydd nesaf?

Gellir gweld y llyfr drwy edrych ar yr e-lyfr uchod neu drwy ei lawrlwytho gan glicio ar y botwm i'r ddogfen

## Apêl i blant y 70, 80 a 90au!?

Oeddet ti'n gwisgo crysau cheesecloth, yn caru Edwards H ac yn bwyta Smash? Ydi 'Slim' yn golygu rhywbeth i ti, nes ti wisgo pedalpushers a chael Vienettafel trît? Oedd gen ti grysh ar Jabas neu Bethan yn Tydi Bywyd yn Boen ac oeddet ti'n gwrando ar Jess a Tynal Tywyll? Fuest ti berchen pâr o Buffaloes ac wyt ti'n gwybod y geiriau i Funky Brenin Disco?

Os mai 'oes', 'ydi' a 'do' ydi'r atebion i unrhyw rai o'r uchod, y tebygolrwydd ydi dy fod yn blentyn y 70au, 80au neu'r 90au... ac os felly mae gan yr Urdd angen clywed gen ti!

I ddathlu ei ben-blwydd yn ganrif oed mewn dwy flynedd, mae Urdd Gobaith Cymru wedi comisiynu'r Prifardd Myrddin ap Dafydd i olrhain hanes y mudiad o'r dechrau'n deg yn 1922 i'r mudiad deinamig ag ydyw heddiw, gyda dros 50,000 o aelodau led led y wlad a gweithgareddau'n ymestyn ar draws y byd. Bydd y gyfrol yn cael ei chyhoeddi i gyd-fynd gyda'r dathliadau yn 2022.

Ond, mae angen deunydd ar gyfer y 70au, 80au a 90au ac mae Myrddin yn awyddus i gysylltu gyda rhai fu'n ymwneud â'r Urdd dros y degawdau hyn yn benodol. Arhosodd miloedd o blant yng ngwersylloedd Llangrannog a Glan-llyn, aeth degau o blant a phobl ifanc ar dripiau dyngarol yr Urdd - mynd a rhoddion i gartrefi plant yng Ngwlad Pwyl a Tsiecoslofacia - a bu teithiau eraill i Gatalonia a Phatagonia. Mi fu degau o bobl ifanc hefyd yn 'swogio' ac yn mynychu cyrsiau arweinyddion yn y gwersylloedd.

Gyda miloedd ohonom yn sownd adre a llawer yn manteisio ar hynny trwy glirio a didoli, mae'n amser perffaith i fynd i dyrchu am hen luniau.


"Mae digonedd o ddeunydd o hanes cynnar yr Urdd yn yr archif, ond angen deunydd mwy diweddar sydd - falle bod plant y Saithdegau, Wythdegau a Nawdegau yn teimlo eu bod nhw'n rhy ifanc i fod yn rhan o archif!" meddai Myrddin ap Dafydd. "Os allai pobol gysylltu hefo fi am sgwrs anffurfiol, mi fyddehynny'n wych."

Felly os oes stori neu brofiad gennych i'w rannu, llun neu rhywbeth o ddiddordeb, yna hoffai Myrddin i chi gysylltu ag o ar myrddin@carreg-gwalch.cymru.

Tylino Thai Trefechan
(Thai Massage)
Tylino Thai £25 yr awr
Tylino Olew £30 yr awr
Tylinwraig â chymhwyster
Am sesiwn, ffoniwch ni ar
07878 071367

GWASANAETH GARDDIO MYNACH
Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio a Garddio
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol
Ffoniwch Meirion:
07792 457816
01974 261758
e-bost: mynachhandyman@yahoo.com

SIOP Y PETHE
Llyfrau, Cardiau Cyfarch a Cherddoriaeth a llond llawr o Grefftau ac Anrhegion
01970 617120
Nawr yn cynnig gwasanaeth Cliciwch a Casglwch ar ein gwefan
www.siopypethe.cymru



GWASANAETH
TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
PROSESYDD GEIRIAU
PRINTYDD LLIW
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â
TEGWYN LEWIS
01970 880627

R.J.Edwards
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerrig mân
01970 820149
07980 687475

Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol

GWASANAETH CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Pen-bont
Rhydybeddau
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ

01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com

# Ydych chi'n mwynhau darllen?

Ydych chi'n hoffi darllen? Ydych chi'n gweld eisiau medru pigo i mewn i'ch llyfrgell neu siop lyfrau leol er mwyn dewis amryiwaeth o lyfrau neu gylchgronau i'ch diddanu o ganlyniad i'r cyfyngiadau presennol? Ydych chi'n berchen ar gyfrifiadur, tabled neu ffôn clyfar? Wel mae gan Wasanaeth Llyfrgell Ceredigion yr ateb perffaith ar eich cyfer er mwyn sicrhau eich bod yn dal i fedru dwli ar ddarllen yn ystod y cyfnod cythryblus hwn.

Os ewch i safle gwe **Llyfrgell Ceredigion** medrwch gael mynediad i filoedd o e-lyfrau, e-gylchgronau a llyfrau llafar trwy apiau **BorrowBox**, **RBDigital** ac **uLIBRARY** – a'r cyfan yn rhad ac am ddim, wrth gwrs. Dim ond eisiau dyfais electronig addas (megis cyfrifiadur, ffôn clyfar neu dabled Apple neu android), eich rhif cerdyn llyfrgell a'ch rhif pin, a byddwch yn barod i ddechrau arni. Peidiwch â phoeni os nad ydych yn aelod o'r llyfrgell eto, dim ond cysylltu â'r Gwasanaeth Llyfrgell ar llyfrgell. library@ceredigion.gov.uk a gallwn drefnu eich bod yn dod yn aelod o'r llyfrgell o fewn ychydig ddyddiau i wneud cais.

Felly, beth yw'r adnoddau sydd gan y Llyfrgell i'w gynnig i chi? Mae ap **BorrowBox** yn cynnig amrywiaeth helaeth o e-lyfrau a llyfrau sain yn y Gymraeg a'r Saesneg ar gyfer plant ac oedolion. Ymhlith y teitlau i blant ceir *Pentre Saith* (Catrin Elen), *Haciwr* (Hywel Griffiths), a *Prism* (Manon Steffan Ros), tra bo *Pam?* (Dana Edwards), *Y Traeth* (Haf Llewelyn) a *Llyfr Glas Nebo* (Manon Steffan Ros) ymhlith y dewis i ddarllenwyr hŷn. Yn rhan o'r ddarpariaeth o lyfrau sain Cymraeg mae *Saith Oes Efa* (Lleucu Roberts), *Cai* (Eurig Salisbury) a *Y Sw* (Tudur Owen) ar gyfer oedolion, a *Na Nel* (Meleri Wyn James), *Maes y Mês* (Nia Gruffydd) a *Hufen Afiach* (Meilyr Siôn) i blant. Cofiwch fod **BorrowBox** hefyd yn darparu rhychwant eang iawn o e-lyfrau a llyfrau sain gan awduron enwog Saesneg, ar gyfer plant ac oedolion. Gallwch fenthyca hyd at 10 e-lyfr a 10 llyfr sain ar y tro, ac os nad yw'r e-lyfr ar gael gallwch wneud cais amdano, gan roi'ch enw i lawr ar y rhestr aros am y llyfr hwnnw.

Cylchgronau, comics ac e-lyfrau yw prif ddarpariaeth **RBDigital**, gyda'r ap hwn yn cynnwys rhai llyfrau sain hefyd. Cylchgronau Saesneg yw'r mwyafrif ar y safle, ac ymhlith y teitlau amrywiol sydd ar gael mae teitlau poblogaidd megis *Good Housekeeping*, *The Radio Times*, *National Geographic*, *The New Scientist*, *BBC Gardener's World* a *Men's Health*. Medrwch lawrlwytho hen rifynnau yn ogystal â'r rhifynnau mwyaf cyfredol o nifer o'r teitlau. Mae'n braf nodi bod darpariaeth Gymraeg hefyd ar yr ap erbyn hyn, gyda *Y Wawr*, *Barddas* a chylchgrawn *Cara* bellach ar gael i oedolion, yn ogystal â chylchgrawn *Mellten* i'r plant. Dim ond rhif eich cerdyn llyfrgell sydd eisiau arnoch i gael mynediad rhad ac am ddim i'r holl gylchgronau hyn – bargen i unrhyw Gardi!

Llyfrau llafar sydd ar wefan **uLIBRARY**. Ar hyn o bryd, yn anffodus, nid oes llyfrau Cymraeg ar gael ar y wefan honno, ond mae'n werth taro cip ar yr ap i weld a oes rhywbeth at eich dant (neu'ch clust!) yn yr iaith fain!

Fel y nodwyd eisoes, mae'r holl adnoddau hyn yn rhad ac am ddim os ydych yn aelod o Lyfrgell Ceredigion. Er mwyn cael mynediad atynt, ewch i wefan Llyfrgell Ceredigion, cliciwch ar y botwm e-lyfrgell, ac yna dewiswch naill ai **BorrowBox**, **RBDigital** neu **uLIBRARY**, a dilynwch y cyfarwyddiadau er mwyn mewngofnodi a benthyca. Y ffordd arall i gael mynediad at yr adnoddau yw trwy lawrlwytho apiau **BorrowBox** ac **RBDigital** ar eich ffôn neu'ch dyfais clyfar, gan ddilyn y cyfarwyddiadau er mwyn cael mynediad trwy Lyfrgell Ceredigion. Os ydych yn cael trafferth wrth lawrlwytho, mae'r Llyfrgell eisoes wedi creu fideo i'ch helpu ar ein tudalen Facebook yn rhoi cyfarwyddiadau ar sut i lawrlwytho'r apiau'n llwyddiannus. Mae'n werth cymryd golwg arno!

Pob hwyl ar y darllen!

**Delyth Huws (Llyfrgell Ceredigion)**

# MADOG

**Priodas Aur**

Ar y 6ed o Fehefin, bydd Arthur ac Eirian Hughes, Lluest Fach, Capel Madog, yn dathlu priodas aur. Llongyfarchiadau mawr iddynt a phob dymuniad da i'r dyfodol.

**Gwellhad buan**

Dymunwn wellhad buan i Margaret Hughes, Gellinebwen, Capel Madog, ar ôl iddi dderbyn llawdriniaeth yn yr ysbyty yng Nghaerfyrddin yn ddiweddar. Dymunwn wellhad buan hefyd i Sylvia Powell, Nantybwla, Capel Madog, sydd wedi treulio cyfnod yn Ysbyty Bron-glais, yn ogystal ag Islwyn Morgan, Cefnfaenor, Capel Dewi, sy'n derbyn gofal yn Ysbyty Bron-glais yn sgîl llawdriniaeth.

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn â Dr Marged Haycock, Gwarcwm, Capel Madog ar ôl iddi golli ewythr a hanai o Lanwrtyd.

**Ennill gwobr**

Llongyfarchiadau i'r Athro Patrick Sims-Williams FBA, Gwarcwm, ar ennill Gwobr Hanes Cymru Francis Jones Coleg yr Iesu Rhydychen 2019

## Ysgol Rhydypennau

**Neges gan Ysgol Rhydypennau**

Mae'r cyfnod annifyr yn parhau ac mae'r wythnosau bellach yn troi'n fisoedd. Gobeithio fod pob un o blant, rhieni a ffrindiau'r ysgol yn cadw'n saff ac yn iach.

Mae'n gyfnod ofnadwy o anodd i bawb, mae pawb yn colli gweld eu ffrindiau ac mi fyddai'n braf cael pob un nôl yn yr ysgol i fwynhau tymor yr haf yn y tywydd braf.

Mae'n anodd credu na fyddwn, fwy na thebyg, yn gallu cynnal gweithgareddau hanfodol sydd bellach yn ran annatod o ddigwyddiadau blynyddol yr ysgol. Sefyllfa ddigalon iawn yw ystyried gweld blwyddyn academaidd yn pasio heb ddiwrnod mabolgampau, dim gala nofio neu drip ysgol ar y bws gyda phecyn bwyd.

Mae'n golled sy'n eithriadol o wir yn enwedig i blant blwyddyn 6 sydd yn colli gweithgareddau amhrisiadwy fel tridiau yng Ngwersyll Glanllyn a diwrnodau pontio yn yr ysgol uwchradd.

Rwy'n mawr obeithio y cawn gyfle i weld ein gilydd cyn fod gwyliau'r haf yn dechrau ond rhaid dilyn y cyfarwyddiadau o'r Cynulliad a'r Awdurdod Lleol.

Diolch byth fod technoleg gyfoes a'r ffôn symudol yn sicrhau cysylltiad gwerthfawr rhwng pawb; ac yn hyn o beth; os oes unrhyw un eisiau cefnogaeth, cymorth, canllaw neu sgwrs-codwch y ffôn neu e-bostiwch.


Cadwch yn saff ac yn iach.






Dyma ddau lun o ferched bl.2 - Yr wythnos gyntaf fe gafodd bl.2 Ysgol Rhydypennau y dasg o greu poster neu lun i ddiolch i weithwyr allweddol – dyma boster wnaeth Maddison; aeth a fe lawr i Spar i'w arddangos. Lilah o bl.2 wnaeth adael basged o hadau a neges wrth giatiau'r ysgol i bobl godi wrth basio i fynd adref i blannu.

## CERDDI CYFARWYDD




Mari George (gol.), *Yr Awen Drwy'r Storïau – Cerddi'n Seiliedig ar Chwedlau* (Cyhoeddiadau Barddas, 2020). 104 tt. £9.95

'Ers canrifoedd lawer mae chwedlau Cymru wedi ysbrydoli beirdd a llenorion, o straeon am arwyr dewr fel y Brenin Arthur a Dewi Sant i straeon trist am Franwen a Chantre'r Gwaelod. Ymateb ein beirdd i'n chwedlau sydd yn y gyfrol hon: detholiad o gerddi hen a newydd wedi eu casglu ynghyd mewn cyfrol hardd.' Dyna sut y disgrifir *Yr Awen Drwy'r Storïau* yn y broliant.

Rydym ni yn ardal *Y Tincer* yn gyfarwydd iawn â chwedl Cors Fochno, a llongyfarchiadau i Anwen Pierce am gael ei cherdd wych 'Gwrach Cors Fochno' wedi'i chynnwys yn y gyfrol. Dyma'r rhagymadrodd i'r gerdd: 'Roedd coel yn ardal y Borth slawer dydd fod gwrach yn byw yng Nghors Fochno. Pan fyddai anhwylder yn taro'r ardal, y wrach fyddai'n cael y bai. Wfftiwn y stori bellach, a ninnau'n hollwybodus a di-hid, ond pan ddaw'r gaeaf a'i niwl dros y ffosydd, mae rhywun yno'n gwylio …' Ewch ati i ddarllen y gerdd!

Nid dyma'r unig gyswllt ag ardal *Y Tincer*. Gwyddom i gyd stori 'Cantre'r Gwaelod' a chawn yn y gyfrol hon gyfle arall i ddarllen cerdd enwog J. J. Williams 'Clychau Cantre'r Gwaelod' sy'n agor â'r llinell gyfarwydd 'O dan y môr a'i donnau …', a chywydd enwog R. Williams Parry,'Cantre'r Gwaelod', sy'n agor â'r llinell 'Obry blodeuai Ebrill. Mae yma ddarn o gywydd i Santes Dwynwen gan fardd lleol, Dafydd ap Gwilym, a cheir dyfyniadau o ddiweddariad Dafydd a Rhiannon Ifans o'r Mabinogion i ddarlunio cefndir rhai o'r cerddi.

Hwn oedd Llyfr y Mis gan Gyngor Llyfrau Cymru ar gyfer mis Ebrill, a dim rhyfedd hynny. Mae yn y flodeugerdd hon gerddi amrywiol, o 'Ymadawiad Arthur' T. Gwynn Jones i gerdd Caryl Parry Jones 'Y Nos yng Nghaer Arianrhod', heb anghofio ambell enghraifft gynnar ar ffurf yr englynion iasoer, 'Eryr Eli'.

Mae'r gyfrol hon yn arbennig o ddeniadol o ran diwyg, wedi'i darlunio gan Martin Crampin, Aberystwyth, gydag addurniadau sy'n seiliedig ar 'Sallwyr Rhygyfarch' a luniwyd ac a ddarluniwyd yn sgriptoriwm Llanbadarn Fawr ar ddiwedd yr unfed ganrif ar ddeg, ac ar deils addurniedig, canoloesol a welir yn Eglwys Gadeiriol Tyddewi. Dyluniwyd y gyfrol gan Tanwen Haf ac fe'i hargraffwyd yn gaboledig gan Y Lolfa.

Dyma gyfrol y gallwch ailymweld â hi dro ar ôl tro – mae'n gyfrol i'w mwynhau a'i thrysori wrth wrando am glychau Cantre'r Gwaelod neu, os ydych chi mor ddewr ag Anwen Pierce, wrth chwilio am Wrach Cors Fochno.

# Ysgol Pen-llwyn







**Dysgu Adref**

Ers gwyliau'r Pasg mae'r ddwy Ysgol wedi penderfynu mynd ar drywydd is-themâu. Mae'r is-themâu yn cynnwys amrywiaeth o dasgau ac yn para wythnos gyfan. Dyma'r is-themâu nes gwyliau hanner tymor y Sulgwyn.

- Arwyr GIG (NHS)
- Y tywydd
- Yr ardd
- Fy hoff le
- Bwyd a Choginio

Mae'r tasgau yn dilyn meysydd y Cwricwlwm Newydd ac yn rhannu syniadau ac enghreifftiau gydag ambell fideo doniol!

Mae'r plant wedi bod yn brysur iawn yn ystod y cyfnod ansicr yma, a mae rhaid dweud mae'r staff i gyd wedi mwynhau gweld ffotograffau a siarad gyda'r plant dros y ffôn. Rydym yn rhannu syniadau o dasgau ar ddydd Llun ac erbyn dydd Gwener mae llwyth o ffotograffau, e-byst a gwaith ar y cyfrifiadur i ni gael gweld. Braf iawn hefyd yw gweld y plant yn arwain y dysgu ac yn gwneud tasgau llythrennedd a rhifedd sy'n ymwneud gyda'u diddordebau nhw, fel maen nhw'n cael arwain y dysgu yn y dosbarth.

**Heriau Mathemateg**

Mae Ymgynghorwyr Mathemateg y Sir wedi bod yn rhannu heriau mathemateg yn ddyddiol. Un i blant y Cyfnod Sylfaen, un i blant Cyfnod Allweddol 2 ac un i blant Cyfnod Allweddol 3 (Uwchradd). Cewch weld y rhai sy'n addas i blant yr Ysgol ar ein tudalen Twitter pob bore. @ysgolpenllwyn

**Dewiniaid Digidol**

Mae Mrs Davies wedi creu grŵp gyda'r Dewiniaid Digidol i ddangos iddyn nhw y feddalwedd newydd sydd ar gael ar Hwb (platfform technoleg dysgu Cymru). Mae Mrs Davies yn ymuno ag weminarau yn wythnosol, yna'n meddwl am dasg sy'n addas i'r ddwy Ysgol, diddordebau'r plant a'r themâu ac wedyn arbrofi i weld os mae'n bosib a bod lefel yr her yn addas ac yna cyflwyno'r dasg i'r plant. Hyd yma rydym wedi cael cloriau i lyfrau, posteri a fideos diddorol iawn.



**Teulu a ffrindiau**

Mae'r plant wrth gwrs yn mwynhau gyda'u teuluoedd yn ystod y cyfnod ansicr hwn. Ond mae wedi bod yn braf clywed fod y plant yn ysgrifennu llythyron at ei gilydd, ffonio a gwneud galwadau fideo. Da iawn blantos mae'n bwysig cyfathrebu gyda'ch ffrindiau! Diolch i'r rhieni am drefnu'r rhain!

**Cadw'n iach**

Mae'n braf hefyd clywed am yr holl brofiadau mae'r plant yn ei wneud i gadw'n iach. Yn ogystal â dilyn fideos ar YouTube fel Joe Wicks, Cosmic Kids (ioga) a Lona Harris (gwersi ffitrwydd yn y Gymraeg) a Ffit Cymru. Mae lluniau hyfryd wedi cyrraedd gan bawb yn mwynhau awyr iach trwy amrywiaeth o weithgareddau corfforol gan gynnwys cerdded, rhedeg, seiclo, nofio yn yr afon, marchogaeth a llawer mwy. Da iawn chi gyd!

**Jôc y dydd**

Yn ein gwaith ar MS Timoedd, er mwyn codi calon a diddanu'r plant mae Ffion





# Ysgol Pen-llwyn

Ingram wedi cael y swydd o rannu jôc pob dydd. Chwarae teg mae'n deffro yn gynnar pob bore, darllen llyfryn jôcs i chwilio jôc addas am y dydd ac yn gwneud i'r staff a phlant i chwerthin pob dydd. Dyma gwpwl o esiamplau ganddi:

1. Pa bapur newydd mae gwenyn yn ei ddarllen?

Y daily mêl

2. Pa focsiwr sydd yn hoffi cerddoriaeth?

Amir Càn

**Staff**

Ar ddiwedd y mis byddwn yn ffarwelio â Miss Pritchard. Diolch yn fawr Miss Pritchard am ddysgu dosbarth Cyfnod Allweddol 2 eleni yn ystod Cyfnod Mamolaeth Ms Lawrence a Mrs Evans. Byddwn yn gwahodd Miss Pritchard yn ôl i'r Ysgol i ffarwelio a hi'n iawn ar ôl i'r Ygsol ail-agor.

Dyma lythyr gan Charlie Hughes:


Ysgol Pen-llwyn
Capel Bangor, Aberystwyth
Ceredigion SY23 3LP
Dydd Gwener, 23ain o Ebrill 2020

Annwyl ddoctor neu nyrs,
Rwy'n ysgrifennu'r llythyr yma i ddweud diolch am helpu cyd o'r bobol sydd wedi cael y Coronafeirws. Mae'r amser hyn yn amser caled ac amser anodd i bawb ar draws y byd, ond efo eich gwaith caled chi, mae'n mynd i wneud newidiad eang i bob un o'r 7.256 biliwn o bobol ar y ddaear.

Rydym ni yn gallu dangos bod ni'n ddiolchgar efo'r clapio. Pob nos Iau mae pawb yn cymeradwyo chi oherwydd dydyn ni ddim yn gallu mynd mas o'n tai, ond mae dal yn swnio fel ein bod ni gyd yn yr un ystafell, a dyna beth rwy'n hoffi amdano fe. Rydw i'n siŵr bod pob doctor neu nyrs sy'n gweithio i'r NHS yn gallu clywed pob dim.

Diolch hefyd am beryglu eich hunan i gael y cleifion bregus i wella. Credaf ar ôl ychydig o fisoedd, bydd popeth yn gallu mynd yn well oherwydd chi i gyd. Mae pawb yn dibynnu arnoch chi felly diolch am gymryd y risg peryglus iawn. Rwy'n siŵr bod neb arall efo'r dewrder i wneud rhywbeth arwrol fel hynna. Felly chi gyd yn arbennig o dda. Chi gyd yn ysbrydoliaeth i bawb. Ac, yn bwysicach oll, fi'n gwybod bod hyn ddim yn ddigon, ond diolch yn fawr am bopeth rydych chi wedi gwneud i helpu ni.

Yn eiddoch yn gywir,
Charlie Hughes.










# Ysgol Penrhyn-coch















**Croeso**
Croeso cynnes i Morgan a Lleucu i'n plith. Am ddechreuad anarferol iawn i chi ond un bythgofiadwy.

**Enwebiad**
Llongyfarchiadau i Miss Cory a gafodd ei henwebu fel Athro Hoci y flwyddyn gan Hoci Cymru / Hockey Wales.


**Cystadleuaeth Rotari Ardal De Cymru**
Llongyfarchiadau mawr i Osian Tudur ar ddod yn 3ydd yng nghystadleuaeth y Rotari Ardal De Cymru i blant 7 –10 oed. Os cofiwch daeth yn gyntaf yng nghystadleuaeth Ardal Aberystwyth a felly, danfonwyd ei gerdd Saesneg ymlaen i'r rownd nesaf lle ddaeth yn 3ydd. Tipyn o gamp – da iawn ti Osian!

**Cyfnod Dysgu Digidol**
Tra fod yr ysgolion ar gau, mae'r disgyblion yn brysur yn dysgu yn eu cartrefi ar-lein ar eu cyfrifiaduron / iPads / gliniaduron / ffonau symudol, a.y.b. Rydyn ni'n byw drwy gyfnod hanesyddol na welwyd ei fath o'r blaen. Felly, yr ydym yn awyddus i rannu gyda chi yr holl waith y mae'r digyblion yn brysur wrthi'n wneud tra'n dysgu o'u cartrefi.

Yn gyntaf, roedd yn rhaid cynnal cyfarfod staff ar Zoom er mwyn cynllunio'r gweithgareddau cyn danfon rhain yn electronig i'r disgyblion.

Ein thema yn ddiweddar yw 'Pobl sy'n ein helpu – GIG'. Mae'r Cyfnod Sylfaen wedi bod yn brysur yn tynnu llun o Florence Nightingale, creu enfysau o ddiolch i'r GIG, creu carden pen blwydd 100 oed i Capten Moore, her rhifedd y dydd a osodwyd gan y Sir a llawer mwy. Yn ogystal a hyn y maent wedi bod yn brysur yn gwneud gweithgareddau amrywiol y tu allan hefyd.





# Ysgol Penrhyn-coch

**Cyfweliad Florence a Mam-gu**

1. Ym mha ysbyty yr oeddet yn gweithio?
   Tregaron.
2. Beth oedd d'oedran ti yn dechrau?
   20 mlwydd oed.
3. Beth yw gwaith nyrs?
   Gofalu am y cleifion, rhoi jabs a thabledi.
4. Beth oeddet yn ei wisgo?
   Ffedog a ffrog, het wen, esgidiau du ac oriawr.
5. Oedd pobl yn gwella?
   Roedd pobl yn gwella ac yn mynd adref.

Y mae Cyfnod Allweddol 2, wedi bod yn creu enfysau ar wordart gan ychwanegu geirfa am y GIG, ateb cwestiynau rhifedd am ysbytai Cymru, edrych ar sesiwn 'Teulu Ffit Cymru' a chreu un ei hun, creu ffeil-o-ffaith am Aneurin Bevan, creu llun gan ddilyn cyfarwyddiadau ar raglen 'youtube' Orielodl. (Gweler y lluniau) Hefyd, ysgrifennu llythyr o ddiolch i ddoctoriaid a nyrsys. Gweler llythyr o ddiolch Daisie iddynt yma.

Annwyl Ddoctoriaid a nyrsys,
Diolch i chi i gyd am eich holl waith caled a'ch ymroddiad. Bob dydd, rydych chi'n achub bywydau ac yn nyrsio pobl yn ôl i'w hiechyd arferol ac yn gwneud gweithrediadau achub bywyd.

Bob nos Iau am 8pm rydw i a fy nheulu yn sefyll y tu allan i'n dreif, ac yn clapio a chanu cloch uchel, uchel i ddweud diolch i'r GIG ac i'r GWEITHWYR ALLWEDDOL.


Mae mor wych cael yr holl feddygon, nyrsys y GIG a'r gweithwyr allweddol i gyd yn helpu i frwydro yn erbyn y coronafirws hefyd.

Rydych chi'n gweithio'n galed iawn ac yn ceisio gwneud eich gorau i bawb bob amser.

Yn y dyfodol, hoffwn i fod yn barafeddyg er mwyn i mi allu helpu pobl hefyd fel chi. Rydych chi'n arwyr.Diolch eto, gyda'm holl galon. DAISIE

Am fwy o wybodaeth, lluniau neu syniadau o weithgareddau dilynwch ni ar ein tudalen trydar @YsgPenrhynCoch











# Tasg y Tincer

Tybed a fuodd yna grafu pen wrth i chi ddyfalu beth oedd y geiriau am y Pasg yn nhasg mis Ebrill? Da iawn ti, Osian, am gael pob ateb yn gywir ac am anfon ebost ata i. Ti sy'n ennill y tro hwn! Llongyfarchiadau!

Ydech chi'n mwynhau'r tywydd braf ry'n ni wedi ei gael dros yr wythnosau diwetha? Mae'n hyfryd cael hoe o'r gwersi ar-lein a'r sgwennu a'r darllen, a mynd allan i'r ardd neu am dro. Ry'n ni newydd ddathlu Calan Mai, sef dechrau mis Mai – roedd hon yn adeg bwysig iawn i ni yng Nghymru. Flynyddoedd yn ôl byddai pobl yn rhoi blodau o'r ddraenwen wen dros eu tai. Dyna hardd! Byddai rhai pentrefi yn adeiladu 'twmpath chwarae' lle byddai pawb yn cwrdd i chwarae gêmau ac i ddawnsio. Byddai rhai yn canu carolau haf ac yn yfed diod o'r enw 'medd'. Beth am godi twmpath chwarae yn yr ardd a dathlu mis Mai?

Y mis hwn, lliwiwch lun y creaduriaid diddorol yn mwynhau bod yn yr ardd. Tynnwch ffoto o'ch llun wedi'i liwio a'i ebostio ata i (anwenmai@hotmail.co.uk), neu argraffwch y dudalen, ei liwio a'i anfon drwy'r post at y cyfeiriad arferol, Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP erbyn **1 Mehefin**. Ta ta tan toc!


Osian

Gofynnwyd i Osian beth fu'n wneud yn ystod y Cloi Mawr.

Yn ystod yr wythnosau diwetha rwy wedi mwynhau mynd ar y beic bob dydd er mwyn cael digon o awyr iach ac ymarfer corff. Rwyf wedi bod yn chwarae llawer o beldroed yn yr ardd gyda fy mrawd bach Steffan a helpu mam a dad i blannu blodau yn yr ardd.

Byddaf yn cael llawer o waith cartref o'r ysgol ac wedi gweld fy ffrindiau o'r ysgol sul ar Zoom!

Rwy'n colli gweld fy ffrindiau i gyd yn yr ysgol ac rwyn edrych ymlaen at fynd yn ôl i fy ngwersi pêl-droed, piano a nofio yn fuan iawn.



Enw

Cyfeiriad

Ysgol

Rhif ffôn    Oed

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETH IECHYD A DIOGELWCH
Arolygon Diogelwch
Asesiadau Peryglon
Archwiliadau Damweiniau
Hyfforddiant
01970 820124
07709 505741

SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Lawrence Kelly
AR AGOR
Llun – Sadwrn
7 y bore – 9 yr hwyr
Sul
7 y bore – 7 yr hwyr
Papurau dyddiol a'r Sul, llyfrgell fideo, cardiau cyfarch siop drwyddiedig
01970 828312

JONATHAN LEWIS
Saer Coed / Adeiladydd
01970 880 652
07773 442 260
BRONLLYS, CAPEL BANGOR
ABERYSTWYTH

ISSN 0963-925X
9 770963 925009 >
Rhif 429 | Mai 2020